
ICAEW CORPORATE FINANCE FACULTY

BRITISH BUSINESS BANK

# Canllaw cyllid busnes

**Siwrnai o'r dechrau hyd at dwf**

**Argraffiad newydd**



Mewn partneriaeth â

Canllaw cyllid busnes (argraffiad newydd) © ICAEW a Banc Busnes Prydain 2016
Mae © teipograffyddol y dyluniad a'r cynllun yn perthyn i ICAEW   Y cyfieithiad Cymraeg © ICAEW 2016
Y cyfieithiad Cymraeg © ICAEW a Banc Busnes Prydain 2016

Os hoffech atgynhyrchu neu ailddosbarthu unrhyw ran o'r deunyddiau yn y cyhoeddiad hwn, yn gyntaf dylech sicrhau caniatâd ysgrifenedig cyd-ddeiliaid yr hawlfraint. Barn y cyfranwyr yw'r farn a fynegir yn y cyhoeddiad hwn. Nid yw'r cyhoeddwyr o reidrwydd yn rhannu'r farn honno. Ni fydd y cyhoeddwyr yn atebol am unrhyw ddibyniaeth a rowch chi ar yr wybodaeth yn y cyhoeddiad hwn. Dylech ofyn am gyngor annibynnol.

ISBN 978-1-78363-659-4

# Gyda'n gilydd ar y siwrnai

Ers i Fanc Busnes Prydain a Chyfadran Cyllid Corfforaethol yr ICAEW gydgyhoeddi argraffiad cyntaf y *Canllaw cyllid busnes* yn haf 2014, mae nifer cynyddol o atebion cyllid gwahanol wedi ennill eu plwyf yn y brif ffrwd ac yn hygyrch i fusnesau bach y Deyrnas Unedig.

Mae amrywiaeth cynyddol y cyflenwad yn golygu y dylai fod modd i fusnesau bach gael mwy o ddewis wrth ystyried cyllid. Er bod ein hymchwil yn dangos bod busnesau'n dod yn fwyfwy ymwybodol o'u hopsiynau, mae llawer o rai eraill yn dal i gael eu llyffetheirio o ran eu gallu i fuddsoddi, tyfu a chreu swyddi a hynny oherwydd diffyg ymwybyddiaeth a dealltwriaeth ynglŷn â'u dewisiadau.

Roedd argraffiad cyntaf y *Canllaw cyllid busnes* yn ddechrau da tuag at helpu busnesau i fod yn fwy gwybodus. Mae'r argraffiad hwn yn defnyddio arbenigedd sylweddol ystod ehangach o bartneriaid o'r diwydiant cyllid a'r gymuned fusnes i gynnig gwybodaeth am fathau o gyllid a ble i ddod o hyd iddyn nhw – man cychwyn hanfodol i fusnesau wrth ddethol yr opsiynau mwyaf addas i'w hamgylchiadau a'u cynlluniau.

Ar ben bod yn ganllaw hwylus i bori ynddo, mae'r *Canllaw cyllid busnes* ar gael ar-lein bellach, gan gynnig gwell cynnwys a chyfleoedd rhyngweithiol sy'n caniatáu i fusnesau ystyried eu hopsiynau cyllid yn haws. Gallwch weld y fersiwn ar-lein yn **thebusinessfinanceguide.co.uk**.

Os ydych yn ymwneud â chyngor i fusnesau, hoffwn eich annog i gysylltu â naill ai Banc Busnes Prydain neu ICAEW ynghylch dod yn ddosbarthwr i'r cyhoeddiad hwn.

Cafodd Banc Busnes Prydain ei sefydlu er mwyn sicrhau bod marchnadoedd cyllid y Deyrnas Unedig yn gweithio'n well i fusnesau bach, ac mae codi ymwybyddiaeth o'r opsiynau cyllid yn rhan fawr o hynny. Gobeithio y bydd y canllaw hwn yn rhoi i fusnesau yr wybodaeth y mae arnyn nhw ei hangen er mwyn manteisio ar yr amrywiaeth o gyllid sydd ar gael er mwyn iddyn nhw barhau ar siwrnai tuag at lwyddiant.

**Keith Morgan, Prif Weithredwr, Banc Busnes Prydain**




**Dechreuwch eich siwrnai nawr.**
Mae fersiwn ar-lein y *Canllaw cyllid busnes* yn cynnwys teclyn rhyngweithiol a fydd yn eich arwain drwy bob cam o'r siwrnai gyllido.

**Cynnwys**

| | |
|---|---|
| Rhagymadrodd | 2 |
| Y gwaith paratoi | 3 |
| Y siwrnai | 6 |
| Adnabod eich opsiynau | 8 |
| Adnabod eich opsiynau: cyllid ecwiti | 10 |
| Adnabod eich opsiynau: cyllid dyled | 16 |
| Buddsoddi mewn cyngor | 21 |
| Chwilio am gymorth | 24 |
| Banc Busnes Prydain | 26 |

# Rhagymadrodd

**Nid ar chwarae bach y mae busnes yn tyfu o'r hedyn cyntaf, ac nid taith syml rhwng A a B mohoni. Anaml y bydd y gyrchfan yn hysbys wrth i syniad y busnes ddechrau ffurfio a thyfu wedyn yn fenter lwyddiannus. Un barhaus yw'r siwrnai gyllid hefyd; efallai na fydd byth yn cyrraedd pen y daith.**

Er mwyn i unrhyw fusnes fynd ar siwrnai, mae angen cyllid priodol ar gyfer pob cam o'r daith. Mae angen i fusnesau sicrhau bod yna gyllid i ategu eu cynlluniau ar gyfer twf. Mae busnesau yn aml yn cael eu dechrau drwy godi gorddrafft neu ar gerdyn credyd, neu gyda chymorth ffrindiau neu deulu neu drwy ddefnyddio eiddo'r teulu fel gwarant gyfochrog. Ond, yn fuan wedyn bydd angen i'r busnes gael ei gyllido'n iawn er mwyn sefyll ar ei draed ei hun os yw'n bwriadu tyfu mewn modd cynaliadwy.

Bydd y canllaw hwn yn amhrisiadwy i entrepreneuriaid sydd wrthi'n dechrau busnes, cyfarwyddwyr sy'n rhedeg busnesau sy'n tyfu a chwmnïau sydd wedi ennill eu plwyf – beth bynnag fo'u maint – yn ogystal ag i gynghorwyr busnesau a buddsoddwyr.

Mae'n esbonio sut i fynd ati i benderfynu ar gyllid, y cwestiynau i'w gofyn a sut i drin hyn fel proses busnes, fel nad yw'n gymaint o fwgan ag y gall ymddangos ar adegau. Ac os oes yna fwganod, mae cynghorwyr da yn gallu rhoi rhagor o ganllawiau. Mae'r canllaw hefyd yn cynnig manylion am ble mae cael cyngor am ddim ynghylch codi cyllid.

Ar ôl i fusnes ddechrau ar ei daith tuag at dwf, bydd angen i'r rheolwyr sicrhau bod modd i'r cynlluniau ar gyfer twf yn y dyfodol gael ei ariannu. Os nad oes modd, mae'n bosibl mai methu wnaiff y busnes. Mae'r tabl ar dudalen 09 yn dangos yr opsiynau sydd ar gael i berchnogion busnes, a'r penderfyniadau y maen nhw'n eu hwynebu ar y siwrnai.

Mae'n sicr y bydd hynt a helynt yn codi ar y daith tuag at dwf. Drwy gydol oes busnes, cyn gynted ac y caiff cynlluniau eu gwneud, boed i chwilio am dwf neu i oroesi neu i rygnu ymlaen, mae'n rhaid sicrhau'r cyllid i ategu'r cynlluniau.

# Y gwaith paratoi

Does dim rhaid i'r gwaith o ddatblygu busnes nes cyrraedd man lle gall gymryd cyfalaf ychwanegol fod yn ormod o fwgan; eto i gyd, rhaid peidio â'i fychanu ychwaith.

Mae'r CAMRE sydd i'w cymryd yn golygu edrych o'r newydd ar y busnes, mewn modd ymchwilgar, fel bod yr atebion i'r cwestiynau y bydd darpar fenthyciwr neu fuddsoddwr yn eu gofyn ar gael gennych yn barod.

**C**ymerwch gam yn ôl o'ch busnes

**A**il-edrychwch ar y rhagolygon a'r heriau

**M**eddyliwch yn ofalus am eich cyfleoedd

**R**howch naid tuag at y dyfodol

**E**drychwch ar opsiynau cyllid

## Cymerwch gam yn ôl o'ch busnes

Mae entrepreneuriaid am ganolbwyntio ar wneud busnes. I lawer, mae cyllid yn perthyn i gategori gwaith gweinyddol, ac efallai nad dyna'u cryfder. Ond, i sicrhau bod y busnes yn gallu symud ymlaen mae'n rhaid i entrepreneuriaid gamu allan o'u busnes a gofyn y cwestiynau y mae angen eu hateb.

## Ail-edrychwch ar y rhagolygon a'r heriau

Efallai fod y cynlluniau wedi'u gwneud pan nad oedd y busnes yn fawr fwy na syniad. Mae pethau'n newid ac mae amgylchiadau'n symud ymlaen. Mae angen ichi edrych o'r newydd ar ble mae'r busnes, pa gyfleoedd sydd ar gael, pa mor ymarferol ydyn nhw a pha heriau newydd sydd yna i'r busnes.

## Meddyliwch yn ofalus am eich cyfleoedd

Mae angen ichi wneud dadansoddiad manwl o ragolygon y busnes yng ngoleuni unrhyw newid mewn amgylchiadau. Mae angen adolygu manteision ac anfanteision newydd ac asesu eu heffaith, ynghyd ag asesu pa mor debygol yw senarios gwahanol.

## Rhowch naid tuag at y dyfodol

Ar sail y dadansoddiad uchod, paratowch ragolygon manwl, gan edrych ar ragolygon y cyfrif elw a cholled (P+L) a'r fantolen ac wedyn, yn hanfodol ddigon, ar y llif arian, a fydd yn tanlinellu faint o gyfalaf y mae angen ei roi i mewn i'r busnes i ariannu'ch cynlluniau diweddaraf.

## Edrychwch ar opsiynau cyllid

Wedyn mae angen ichi feddwl am yr opsiynau o ran ariannu'r busnes, a pha mor briodol ac ymarferol ydyn nhw. I sicrhau cyllid dyled a/neu fuddsoddiad, mae angen ichi sicrhau bod eich cynnig busnes yn glir a dealladwy i'ch cynulleidfa darged – gyda chynllun busnes. Yn y cyfnod hwn mae'n debyg y bydd ar fusnes angen cyngor allanol ac adnoddau profiadol i sicrhau ei fod yn barod ar gyfer buddsoddiad gan ddarpar fuddsoddwyr, gan roi'r cyfle gorau iddo sicrhau cyllid. Byddwch yn agored eich meddwl. Mae byd cyllid wedi datblygu'n sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf ac mae llawer o opsiynau ar gael – rhai yn newydd a rhai sydd wedi bod ar gael ers tro byd.

## Cynllun busnes

Paratoi cynllun busnes cryf yw'r allwedd i sicrhau cyllid. Mae cynllun busnes cadarn yn helpu darpar fenthycwyr neu fuddsoddwyr i ddeall gweledigaeth a nodau'r busnes. Mae hefyd yn hoelio sylw ar ddealltwriaeth y rheolwyr o strategaeth y busnes. Mae'n eu helpu i ddeall y risgiau sy'n rhan annatod o'r strategaeth ac effaith gwyro oddi wrth y cynllun – yn enwedig o ran cyllid.

Bydd yr wybodaeth yn dibynnu ar y gynulleidfa darged, ond fe ddylai gynnwys:

- crynodeb gweithredol, sy'n tanlinellu'r prif bwyntiau ac sydd wedi'i gynllunio i ddal llygad darpar fenthycwyr neu fuddsoddwyr;
- manylion y personél allweddol, eu cyfrifoldebau, eu sgiliau a'u profiad
- dadansoddiad marchnad ynglŷn â'r cwmni, ei gynhyrchion neu ei wasanaethau a'i gystadleuwyr;
- manylion y cleientiaid presennol ac arfaethedig;
- cynllun marchnata sy'n targedu cwsmeriaid newydd neu bresennol;
- gwybodaeth ariannol hanesyddol am y tair blynedd masnachu diwethaf (os yw ar gael) – cyfrifon (wedi'u harchwilio os ydyn nhw ar gael) a'r cymarebau cyfrifyddu allweddol;
- data am lif arian, gan gynnwys gwybodaeth am delerau talu safonol a chyfnodau dyled nodweddiadol;
- rhagolygon ariannol y tair i bum mlynedd nesaf, yn yr un diwyg â'r wybodaeth hanesyddol, gan dynnu sylw at y rhagdybiaethau isorweddol allweddol;
- rhagolygon llif arian y ddwy neu dair blynedd nesaf (neu, yn achos busnes sy'n dechrau neu sy'n cael ei weddnewid, nes i'r busnes ddechrau gwneud elw), gan danlinellu'n glir faint o gyllid y mae ei angen;
- sut y caiff credydwyr, gwariant cyfalaf, dyledwyr a stoc eu rheoli dros gyfnod y rhagolygon;
- gall rhagolygon 'hyblyg' ychwanegol yn dangos effaith senarios negyddol allweddol, megis peidio â chyrraedd targedau gwerthiant neu arbedion costau sy'n arafach na'r disgwyl yn cael eu gwireddu, gael eu cynnwys hefyd, neu os gofynnir amdanyn nhw mae'n rhaid eu cynnwys; a
- sut y gall buddsoddwyr ecwiti roi'r gorau i'r busnes neu ei ailgyllido, a realeiddio'u buddsoddiad.

Rhaid bod yn glir faint o arian y perchennog presennol sydd wedi'i ymrwymo yn y busnes. Os bydd benthyciwr neu fuddsoddwr yn meddwl nad oes gan y perchennog presennol ddigon o ymroddiad i'r busnes, mae'n debyg y bydd yn anos sicrhau benthyciad neu fuddsoddiad, os nad yn amhosibl. Dylai'r busnes ystyried a fyddai buddsoddwyr yn gymwys i gael rhyddhad treth (fel y'i disgrifir ar dudalen 12) gan sicrhau ei fod yn mynegi hyn yn y cynllun busnes. Rhaid i swm unrhyw gefnogaeth sydd eisoes wedi'i sicrhau oddi wrth fanciau neu fuddsoddwyr eraill gael ei ddatgan yn glir. Gall hyn ddangos pa mor atyniadol yw'r busnes fel buddsoddiad.

Os yw'r busnes yn chwilio am gyllid dyled mae angen i'r cynllun ddangos sut y gall y busnes dalu taliadau llog ac ad-dalu'r elfen gyfalaf dros gyfnod y benthyciad. Bydd rhestr ad-daliadau yn gysylltiedig â'r rhagolygon yn gwneud hyn yn glir. Wrth chwilio am ecwiti, bydd angen i'r cynllun ddangos sut y câi'r darpar fuddsoddwr ddifidendau a sut y byddai gwerth y busnes ac felly gwerth eu cyfran nhw yn tyfu.

Dylai'r cynllun fod yn un 'wedi'i ariannu'n llawn' bob tro – gyda digon o lwfans fel nad yw'r broses gyfan yn gorfod ailddechrau yn rhy fuan. Boed cyllid dyled byrdymor ynteu cyfalaf twf hirdymor, bydd ar wahanol fuddsoddwyr ecwiti a gwahanol ddarparwyr dyled ofynion penodol o ran yr hyn sy'n cael ei gynnwys mewn cynllun busnes.

**Ceir rhagor o fanylion am sut i baratoi cynllun busnes ar wefannau llawer o gyfranwyr y canllaw hwn. Mae manylion y gwefannau ar gael ar dudalennau 24–25.**

**'Y siwrneiau gorau mewn bywyd yw'r rhai sy'n ateb y cwestiynau na wnaethoch eu gofyn.'**

**Rick Ridgeway**

## Arian parod

Cyn chwilio am gyfalaf allanol, dylai busnesau sicrhau eu bod yn rheoli arian parod yn effeithiol. Gall camau cymharol syml helpu i gynyddu'r arian parod sydd ar gael i'r eithaf. Mae'r gallu i ddangos rheolaeth dda ar arian parod hefyd yn dangos yr arwyddion cywir i ddarpar fuddsoddwyr neu fenthycwyr.

Yr unig ffordd i gadw llif arian o dan reolaeth yw drwy ddeall yr hyn sy'n mynd allan ac yn dod i mewn. Yn aml , mae rhagolwg o'r llif arian wythnosol yn hanfodol, yn enwedig mewn busnes sy'n tyfu.

Rhaid i'r rheolwyr ddeall faint o arian parod a faint o gyfalaf gweithredol y mae ei angen i redeg y busnes. Wedyn mae angen i'r cyfalaf gweithredol gael ei reoli'n ofalus. Er enghraifft:

- rhaid adolygu lefelau stoc a gwaith ar ei hanner (WIP), a rhaid mynd ati i leihau lefelau gormodol o stoc;
- rhaid rhoi anfonebau am werthiannau yn brydlon a thrwy ddefnyddio'r gweithdrefnau rheoli credyd gorau, gan gasglu'r taliadau o fewn y telerau hynny;
- dylai cytundebau mewn contractau â chyflenwyr gael eu hadolygu i greu arian parod, gan dalu cyflenwyr ar delerau credyd;
- dylai gwariant cyfalaf gael ei asesu'n ofalus gan ystyried goblygiadau prynu'n llwyr ar gyfer llif arian; a
- dylid defnyddio dulliau talu awtomataidd lle bynnag y bo modd – mae gofyn i gwsmeriaid dalu drwy drosglwyddiad electronig neu drwy ddebyd uniongyrchol yn helpu i gyflymu taliadau a chynyddu eu sicrwydd.

Mae trin a thrafod rheolaeth arian fel hyn yn fwy na rhan o'r paratoi ar gyfer buddsoddiad neu ddyled newydd; mae'n drefn sy'n gorfod bod yn barhaus. Mae'n debyg y bydd rhanddeiliaid newydd yn craffu'n fanylach byth ar lif arian wrth i siwrnai'r busnes fynd yn ei blaen.

# Y siwrnai




Bydd ariannu busnes yn aml yn golygu chwistrelliad o ddyled ac ecwiti. Mae'r diagram hwn yn dangos y cylch cyllido, nad yw o reidrwydd yn siwrnai â phen draw iddi, ac felly mae'n golygu adolygu ac ailgloriannu'n barhaus. I gael canllaw i bob cam o'ch siwrnai gyllido, ewch i **thebusinessfinanceguide.co.uk**.

## Pa gam mae'ch busnes chi wedi'i gyrraedd?



- Cyn masnachu
- Cyn gwneud elw
- Proffidiol ac yn tyfu
- Wedi'i sefydlu ac yn tyfu
- Wedi'i sefydlu ac yn sefydlog
- Wedi'i sefydlu ond o dan straen

## Pa heriau a chyfleoedd sydd yna?



- Cyllid cychwynnol
- Lansio cynnyrch/gwasanaeth/brand
- Twf gwerthiant yn organig
- Ehangu i farchnadoedd neu ardaloedd newydd
- Ehangu'n rhyngwladol
- Buddsoddi mewn cyfleusterau newydd
- Ailgyllido/lleihau cost benthyca
- Angen ailstrwythuro'r cyfalaf
- Gwella'r safle arian parod
- Cynlluniau caffael

**Pa opsiynau cyllido sydd ar gael?**

ECWITI

- Cyllid egino
- Cyllid angylion
- Ecwiti drwy gyllido torfol
- Cyfalaf menter
- Cyfalaf menter corfforaethol
- Ecwiti preifat
- IPO/cynnig cyhoeddus

DYLED

- Benthyciad dechreuol
- Gorddrafft
- Benthyciad/bond banc
- Benthyciadau cymar-i-gymar
- Cyllid seiliedig ar asedau
- Prydlesu neu hurbwrcasu
- Cyllid allforio neu fasnachu
- Cyllid twf

**Ydych chi'n cymryd ecwiti, dyled, neu'r ddau?**

**Sut olwg sydd ar eich busnes ar ôl sicrhau'r cyllid newydd?**

**Parhau â'ch siwrnai**

# Adnabod eich opsiynau

I unrhyw entrepreneur, ble bynnag y mae ar ei siwrnai fusnes, mae adnabod yr opsiynau ar y daith yn allweddol er mwyn gwneud cynnydd llwyddiannus. Ac, yn holl-bwysig, mae hyn yn wir ynglŷn â'r opsiynau cyllid.

Mae'r syniad bod yna un ffordd gywir a all gael ei mapio ar gyfer busnes yn un gymhariaeth yn ormod. Bydd rhedeg busnes yn codi llawer o heriau newydd: ffyrdd wedi'u cau neu ffyrdd sy'n troi'n bengaead, felly mae'n hanfodol eich bod yn ymwybodol o'r llwybrau amgen. Gall fod angen ichi gymryd cyngor am y cyfeiriad ond os ydych chi wedi paratoi gan wybod am y dewisiadau gwahanol, mae'r siwrnai'n llawer llai o fwgan.

Mae'r tabl hwn yn dangos yr amrywiol opsiynau sydd ar gael yn gyffredin ar gyfer gwahanol gyfnodau mewn busnes. Bydd yr hyn sydd ar gael yn dibynnu, wrth gwrs, ar amgylchiadau busnes.

**'Dwi wedi sylwi y bydd hyd yn oed pobl sy'n credu mewn rhagluniaeth yn edrych cyn croesi'r ffordd.'**

**Stephen Hawking**




**I gael disgrifiad cynhwysfawr o'r holl opsiynau cyllido, ewch i thebusinessfinanceguide.co.uk**

| | Opsiynau ecwiti (tt 10 i 15) | | | | | | | Opsiynau dyled (tt 16 i 20) | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cyllid egino | Cyllid angylion | Ecwiti drwy gyllido torfol | Cyfalaf menter | Cyfalaf menter corfforaethol | Ecwiti preifat | IPO/cynnig cyhoeddus | Benthyciad dechreuol | Gorddrafft | Benthyciad/bond banc | Benthyciadau cymar-i-gymar | Cyllid seiliedig ar asedau* | Prydlesu neu hurbwrcasu | Cyllid allforio neu fasnachu | Cyllid twf |
| **Pa gam mae'ch busnes chi wedi'i gyrraedd?** | | | | | | | | | | | | | | | |
| Cyn masnachu | ● | | | | | | | ● | | | | | | | |
| Cyn gwneud elw | ● | ● | ● | ● | ● | | | ● | ● | | | ● | ● | ● | ● |
| Proffidiol ac yn tyfu | | ● | ● | | ● | ● | ● | | ● | ● | ● | ● | ● | ● | ● |
| Wedi'i sefydlu ac yn tyfu | | ● | ● | | | ● | ● | | ● | ● | ● | ● | ● | ● | ● |
| Wedi'i sefydlu ac yn sefydlog | | | | | | | ● | | ● | ● | ● | ● | ● | ● | |
| Wedi'i sefydlu ond o dan straen | | | | | | ● | | | ● | ● | | ● | ● | ● | |
| **Pa gynlluniau, heriau neu gyfleoedd at y dyfodol sydd bwysicaf yn eich busnes chi ar hyn o bryd?** | | | | | | | | | | | | | | | |
| Cyllid cychwynnol | ● | ● | | ● | ● | | | ● | | | | | | | |
| Lansio cynnyrch/gwasanaeth/brand | | | ● | | ● | | ● | ● | ● | ● | | ● | | | ● |
| Twf gwerthiant yn organig | | | | | ● | | | | ● | ● | ● | ● | | ● | ● |
| Ehangu i farchnadoedd neu ardaloedd newydd | | | | | ● | ● | ● | | | ● | ● | ● | | ● | ● |
| Ehangu'n rhyngwladol | | | | | ● | ● | ● | | | ● | ● | ● | | ● | |
| Buddsoddi mewn cyfleusterau newydd | | | | | | ● | ● | | | ● | ● | | ● | | |
| Ailgyllido/lleihau costbenthyca | | | ● | | | | | | | ● | ● | ● | ● | | |
| Angen ailstrwythuro'r cyfalaf | | | ● | | | | | | | ● | ● | ● | | | |
| Gwella'r safle arian parod | | | ● | | | | | | | | | ● | ● | | ● |
| Cynlluniau caffael | | | | | | ● | ● | | | | | ● | | | |

*Mae cyllid seiliedig ar asedau'n cynnwys benthyciadau seiliedig ar asedau, ffactorio, disgowntio anfonebau a chyllid y gadwyn gyflenwi

Adnabod eich opsiynau:

# Cyllid ecwiti

Gallwch edrych ar fuddsoddiad ecwiti fel ffordd i gyllido llawer o gyfnodau gwahanol ar siwrnai'r busnes. P'un a ydych yn cychwyn arni neu'n mynd drwy gyfnod o dwf mawr, mae ecwiti yn rhan bwysig o drefniadau ariannol busnesau ac mae fel arfer yn dod ag arbenigedd ehangach yn ei sgil.

Mae hefyd yn bwysig cydnabod y gall rhai buddsoddwyr gymryd cyfran leiafrifol – nid cyfran fwyafrifol bob tro. Mae buddiannau'r buddsoddwyr yn cyd-fynd a buddiannau'r busnes, sy'n golygu bod pawb yn rhan o'r siwrnai tuag at dwf.

**'Bu'r angylion a gefnogodd fy musnes i yn gefn imi o'r dechrau'n deg, drwy'r ehangu rhyngwladol, drwodd i arnofiant. Byddai'r siwrnai wedi bod yn amhosibl hebddyn nhw.'**

**Sherry Coutu, CBE**



Yn y cyfnod cynnar, bydd ar fusnesau angen cefnogaeth hirdymor i ariannu'r busnes drwodd i refeniw ac elw – gallai hyn fod drwy angylion busnes a/neu gyfalaf menter ac mae'n gyffredin i bartïon gwahanol gael eu cynnwys mewn cyfnodau gwahanol. Yn y tymor byrrach, gall buddsoddiad ecwiti ategu strategaeth dwf egnïol.

Mewn termau syml, mae cyllid ecwiti'n golygu codi cyfalaf drwy werthu cyfrannau mewn busnes. Gall ecwiti gael ei werthu i drydydd partïon o fuddsoddwyr sydd heb gyfran bresennol yn y busnes. Fel arall, gall cyllid ecwiti gael ei godi o blith y cyfranddeiliaid presennol yn unig, drwy ddyranu hawliau.

## Meddyliwch am y dyfodol

**Mae angen ichi bwyso a mesur sawl mater cyn gwerthu cyfran o'ch busnes yn gyfnewid am gyfalaf. Dyma'r prif fanteision i'r busnes yn sgil y gwahanol fathau o gyllid ecwiti.**

- Mae'r cyllid ecwiti yn cael ei ymrwymo i'r busnes a'i brosiectau arfaethedig, hyd yn oed os bydd y cynlluniau'n newid.
- Mae buddsoddwyr ecwiti'n cymryd risg wrth brynu cyfrannau. Yn gyfnewid am hynny, gallan nhw weld cynnydd yng ngwerth eu cyfran os bydd y busnes yn gwneud yn dda, drwy ddefnyddio'r cyfalaf ychwanegol.
- Mae buddiannau'r buddsoddwyr yn cyd-fynd â buddiannau'r busnes tuag at sicrhau twf a llwyddiant. Bydd twf a phroffidioldeb y busnes yn cynyddu gwerth y busnes ac felly gwerth cyfranddaliad y buddsoddwyr.
- Yn ogystal â chymryd cyfran yn y busnes, gall yr angylion busnes cywir, y buddsoddwyr cyfalaf menter cywir neu unrhyw fuddsoddwr ecwiti cywir arall ddod ag adnoddau gwerthfawr i'r busnes. Gall eu sgiliau, eu profiad a'u cysylltiadau helpu i ddatblygu strategaeth y busnes.
- Os yw'r cwmni'n un preifat, gall y perchennog werthu ei gyfran yn breifat i brynwr preifat bodlon, neu os yw'r busnes am gael ei restru gall werthu ei gyfrannau drwy'r arnofiant.
- Mae buddsoddwyr yn aml yn fodlon darparu cyllid dilynol wrth i'r busnes dyfu.
- Mae codi ecwiti cyhoeddus yn darparu marchnad hylifol, y gellir troi ati os oes angen codi rhagor o arian ar gyfer cynlluniau twf yn y dyfodol.
- Mae ecwiti drwy gyllido torfol yn rhoi mynediad ehangach i'r cwmni i ddarparwyr cyfalaf ymysg y cwsmeriaid a'r cyhoedd.
- Gall broses cyllido torfol fod yn gymharol gyflym gan ddenu cwsmeriaid yr un pryd.

Bydd y cyfranddeiliaid cychwynnol wedi rhoi'r ecwiti cychwynnol i mewn i'r busnes. Gall ffrindiau neu deulu fod wedi 'buddsoddi' yn nyddiau cynnar siwrnai busnes. Wedyn gall angylion busnes gymryd cyfran ecwiti. Mae buddsoddwyr cyfalaf menter (VC), (sydd hefyd yn cael eu galw'n gyfalafwyr menter), cyfalafwyr menter corfforaethol neu fuddsoddwyr ecwiti preifat (PE) yn tueddu i fod yn opsiwn yn ystod cyfnod o dwf. Gall sefydliadau ariannol neu'r cyhoedd yn ehangach fuddsoddi mewn ecwiti drwy restru cyfrannau'r cwmni. Mae'r cyhoedd hefyd yn gallu sicrhau cyfran ecwiti drwy lwyfannau ar gyfer ecwiti drwy gyllido torfol. Y gwir amdani yw nad yw pethau mor syml â hynny – gall angylion busnes, er enghraifft, fuddsoddi yn ystod llawer o'r cyfnodau yn nhwf y busnes. Wrth i bethau symud ymlaen, bydd cofrestr y cwmni o gyfranddeiliaid yn gymysgedd o fuddsoddwyr sydd wedi codi cyfrannau ar wahanol gyfnodau yn ystod ei siwrnai.

Yn wahanol i ddarparwyr dyled, neu fenthycwyr, (gweler yr adran ar gyllid dyled ar dudalen 16), does gan fuddsoddwyr ecwiti ddim hawliau i gael llogau, ac i gael ad-dalu eu cyfalaf erbyn dyddiad penodol. Mae enillion y cyfranddeiliaid fel arfer yn cael eu talu ar ffurf difidend neu eu realeiddio drwy dwf cyfalaf. Mae'r ddau yn dibynnu ar dwf proffidioldeb y busnes, a'i allu i gynhyrchu arian. Oherwydd y risg i'w henillion, bydd buddsoddwyr ecwiti fel arfer yn disgwyl cael enillion uwch na darparwyr dyled. Os oes ar brosiect angen buddsoddiad dros gyfnod hirach na chynigion dyled arferol, ecwiti fydd y math mwyaf addas o gyllid.

**Mae yna hybrid o gyllid dyled ac ecwiti hefyd – mesanîn. Ymdrinnir â benthyciadau mesanîn a benthyciadau twf cyfalaf yn yr adran ar gyllid dyled.**

**Ystyriaethau eraill i fusnesau sy'n chwilio am fuddsoddiad ecwiti.**

- Gall codi cyllid ecwiti fod yn gostus. Mae'n galw am amser y rheolwyr, a all gael eu troi oddi wrth redeg y busnes o ddydd i ddydd.
- Bydd darpar fuddsoddwyr yn craffu ar ganlyniadau'r gorffennol a'r rhagolygon ar gyfer y perfformiad yn y dyfodol, ac yn ymchwilio i wybodaeth gefndir, gan gynnwys gwybodaeth am y tîm rheoli.
- Bydd cyfran y perchennog o'r busnes yn cael ei lleihau. A phan fydd y cyfranddeiliaid newydd yn buddsoddi, bydd y rheolwyr yn wynebu graddau gwahanol o ddylanwad wrth wneud penderfyniadau strategol mawr, gan ddibynnu wrth gwrs ar natur y cyfranddaliad a'r gyfran a brynwyd.
- Bydd angen buddsoddi amser y rheolwyr i gynhyrchu gwybodaeth gyson i'r buddsoddwr ei monitro.
- Gall fod rhaid cydymffurfio â gofynion cyfreithiol a rheoleiddiol wrth godi cyllid ecwiti.
- Ceir mwy o ofynion ynglŷn â datgelu a llywodraethu os bydd cwmni'n codi cyfalaf o farchnadoedd cyhoeddus.
- Bydd cyllido torfol fel rheol yn byw neu'n marw – os na fydd cynnig yn taro'r targed, nid yw'n cael dim buddsoddiad o gwbl.
- Nid yw taliadau difidend yn gallu cael eu didynnu at ddibenion treth.

## Angylion busnes

Mae angylion busnes yn unigolion sy'n gwneud buddsoddiadau ecwiti mewn busnesau sydd â'r potensial i dyfu, busnesau yn nyddiau cynnar eu datblygiad, neu fusnesau sydd wedi ennill eu plwyf ac sy'n chwilio am gyfalaf i ehangu. Bydd angylion yn cefnogi cyfleoedd lle mae'r risg yn fawr, sydd â'r potensial i greu enillion mawr.

Bydd rhai'n buddsoddi ar eu pen eu hunain, bydd eraill yn buddsoddi drwy syndicet neu glwb angylion. Er hyn, y duedd fwyaf arwyddocaol yw bod angylion yn buddsoddi mewn syndicet neu grŵp, gydag un angel yn cymryd yr awenau fel rheol. Yn y cyfnod egino, mae'n bosibl y bydd symiau llai o arian ar gael. Mae'n bosibl y gall busnesau yn y cyfnod tyfu ddenu symiau mwy gan syndicet o angylion. Gall angylion gynnig sawl cylch o fuddsoddiadau ac yn aml maen nhw'n cydfuddsoddi â ffynonellau cyfalaf eraill a chronfeydd cydfuddsoddi wrth i'r angen am ragor o gyllid twf godi.

Wrth dderbyn buddsoddiad gan angel, dylai busnes edrych y tu hwnt i'r cyfalaf y mae'r angel yn ei roi. Gall y mwyafrif o angylion ddod â phrofiad uniongyrchol gwerthfawr o dyfu busnesau, sef busnesau yn eu dyddiau cynnar yn aml. Bydd eu sgiliau a'u profiad, a'u rhwydwaith o gysylltiadau, yn cael eu rhannu gyda'r busnes. Mae'r rhan fwyaf yn canolbwyntio ar fuddsoddi mewn ardal ddaearyddol fach, ac felly mae ganddyn nhw wybodaeth leol a rhwydweithiau lleol. Mae angylion yn aml yn gwneud penderfyniadau ar fuddsoddiad yn gyflym, heb asesiadau cymhleth. Serch hynny, gall ddod o hyd i'r angel cywir gymryd amser.

Mynnwch ragor o wybodaeth drwy Gymdeithas Angylion Busnes y Deyrnas Unedig, **ukbusinessangelsassociation.org.uk**.

## Cyfalafwyr menter

Mae cyfalafwyr menter yn buddsoddi mewn busnesau sydd â'r potensial i greu enillion mawr – y rhai sydd â chynhyrchion neu wasanaethau sydd â phwynt gwerthu unigryw, neu fantais gystadleuol. Maen nhw'n buddsoddi mewn portffolio lle gallai nifer sylweddol o fusnesau fethu, fel bod rhaid i'r busnesau sy'n llwyddo wneud iawn am y colledion hynny. Mae arnyn nhw angen prawf o lwyddiant hefyd, ac felly anaml y maen nhw'n buddsoddi yn ystod y cyfnod cychwynnol. Fel angylion busnes, bydd cyfalafwyr menter yn dod â thoreth o brofiad i'r busnes. Dydyn nhw ddim yn debyg o gymryd rhan yn rhedeg y busnes o ddydd i ddydd ond yn aml fe fyddan nhw'n helpu i ganolbwyntio ar strategaeth y busnes.

Gall sicrhau buddsoddiad gan gyfalafwyr menter fod yn broses gymhleth a drud sy'n cymryd llawer o amser yn aml. Mae'n rhaid sicrhau cynllun busnes manwl. A bydd ffioedd cyfreithiol yn codi wrth negodi'r cytundeb, p'un a fyddwch yn sicrhau buddsoddiad yn y pen draw ai peidio.

Mae cyfalaf menter corfforaethol (CVC) yn ffynhonnell gynyddol arall o gyllid i fusnesau bach. Mae hyn yn disgrifio amrywiaeth eang o fuddsoddiadau ecwiti gan gorfforaeth, neu gan endid buddsoddi'r gorfforaeth, mewn busnesau preifat sy'n tyfu'n gyflym ac sydd â photensial mawr. Mae CVC yn chwarae'r un rôl economaidd â chyfalaf menter – adnabod a meithrin busnesau arloesol y dyfodol. Mae i'r berthynas ffurfiol ac uniongyrchol dair agwedd fel arfer: gwneud buddsoddiad ariannol yn gyfnewid am gyfran o ecwiti'r busnes; cynnig cyllid dyled i ariannu gweithgareddau twf am enillion y cytunir arnyn nhw, cynnig cymorth anariannol am enillion y cytunir arnyn nhw, megis darparu mynediad i sianeli marchnata neu ddosbarthu sydd wedi'u sefydlu, neu drosglwyddo gwybodaeth. Mae'n bwysig bod nodau'r gorfforaeth yn gyson â nodau'r busnes.

Mynnwch ragor o wybodaeth drwy'r BVCA (Cymdeithas Ecwiti Preifat a Chyfalaf Menter Prydain), **bvca.co.uk**, a'i gwefan benodol ar gyfalaf menter – **venturecentral.co.uk**.

### Help llaw gan CThEM

Wrth dderbyn ecwiti, dylai busnesau sicrhau bod y darpar fuddsoddwyr yn ymwybodol o bedwar o gynlluniau CThEM. Mae'r rhain yn hybu buddsoddiadau mewn cwmnïau sydd heb eu rhestru ac sy'n tyfu, drwy amryw o fathau o ryddhad treth yn erbyn buddsoddiad mewn cyfrannau newydd.

**Cynllun Buddsoddi Cychwynnol mewn Mentrau (SEIS)**
Pan fydd y cyfrannau newydd yn cael eu dyrannu, rhaid i gwmnïau sy'n dechrau ac sy'n gymwys i gael buddsoddiadau drwy'r SEIS:

- cyflogi llai na 25 o weithwyr cyfartal ag amser-llawn;
- bod â llai na £200,000 o asedau gros; a
- bod heb gael buddsoddiad EIS neu VCT.

Gall gwmnïau dderbyn hyd at £150,000 o dan SEIS.

**Y Cynllun Buddsoddi mewn Mentrau (EIS) a'r Cynllun Ymddiriedolaethau Cyfalaf Menter (VCT)**
Pan fydd y cyfalaf yn cael ei godi, rhaid i fusnesau sy'n gymwys i gael buddsoddiadau drwy gynllun yr EIS neu'r VCT:

- cyflogi llai na 250 o weithwyr cyfartal ag amser-llawn, (500 yn achos cwmnïau 'gwybodaeth-ddwys');
- bod â llai na £15m o asedau gros, a heb fod yn fwy nag £16m ar ôl i'r cyfalaf gael ei godi;
- bod heb eu rhestru ar gyfnewidfa stoc gydnabyddedig, megis Cyfnewidfa Stoc Llundain, (ond caniateir cwmnïau sydd wedi'u rhestru ar AIM); a
- bod wrthi'n cynnal masnach 'gymwys'.

**Rhyddhad Treth ar Fuddsoddiadau Cymdeithasol (SITR)**
Pan fydd y cyfalaf yn cael ei godi, rhaid i fentrau cymdeithasol sy'n gymwys i gael buddsoddiad ecwiti (neu, o dan gyfyngiadau penodol, dyled), drwy gynllun yr SITR:

- cyflogi llai na 500 o weithwyr cyfartal ag amser-llawn;
- bod â llai na £15m o asedau gros, a heb fod yn fwy nag £16m ar ôl i'r cyfalaf gael ei godi; a
- bod heb eu rhestru ar gyfnewidfa stoc gydnabyddedig, megis Cyfnewidfa Stoc Llundain, (ond caniateir cwmnïau sydd wedi'u rhestru ar AIM).

Ceir rhagor o ofynion, y mae'n rhaid i'r cwmni neu'r fenter gymdeithasol eu bodloni am gyfnod di-dor ar ôl dyrannu'r cyfrannau, (neu'r ddyled os yw'n cael ei chodi drwy gynllun SITR).

Caiff cwmnïau godi hyd at £5m mewn unrhyw un flwyddyn, a chyfanswm o £12m, o'r pedwar cynllun hyn, (neu £20m yn achos busnesau 'gwybodaeth-ddwys').

I gael manylion llawn yr amrediad diweddaraf o fathau o ryddhad treth ewch i **hmrc.gov.uk**.

## Ecwiti preifat

Mae PE yn gwneud buddsoddiadau dros y tymor canolig i hir, neu mae'n cynnig cyfalaf twf, i gwmnïau sydd â'r potensial i dyfu'n fawr. Byddai buddsoddwyr PE fel arfer yn gwella proffidioldeb y busnes drwy wella gweithrediadau gan anelu at dyfu refeniw drwy fuddsoddi yn yr amrediad cynhyrchion neu mewn gwasanaethau newydd, neu ehangu i dir newydd. Maen nhw hefyd fel rheol yn dod â disgyblaeth gorfforaethol a strwythur rheoli i'r busnes, er mwyn cynnig llwyfan iddo dyfu ymhellach. Mae model llywodraethu PE yn gyfuniad o arbenigedd strategol, ariannol a gweithredol. Mae darparu cymorth anariannol yn cynnwys hwyluso mynediad i sianeli marchnata neu ddosbarthu sydd wedi ennill eu plwyf. Byddai buddsoddwyr PE yn mynd ati i reoli eu buddsoddiad drwy gyfnod o bum mlynedd i saith, ar gyfartaledd. Ar ôl hynny, bydden nhw'n rhoi'r gorau i'w buddsoddiad, gan werthu eu cyfrannau, ar ôl gweld gwerth y cwmni'n cynyddu. Gall ffyrm PE werthu eu cyfran i ffyrm PE arall neu i brynwr masnachol corfforaethol. Fel arall, gall restru'r cwmni'n gyhoeddus.

### Cwestiynau allweddol ynghylch ecwiti

Cyn ichi chwilio am gyllid ecwiti, ystyriwch y pum cwestiwn hyn:

1. Faint mae ei angen?
2. Beth yw ei ddiben?
3. Am faint o amser y bydd angen y cyllid?
4. Pa sgiliau eraill y mae ar y busnes eu hangen?
5. Pa lefel o reolaeth yr hoffai'r cyfranddeiliaid presennol ei chadw?

Gall yr atebion gael eu cynnwys mewn cynllun busnes cynhwysfawr, a ddylai ymgorffori amcanestyniadau ariannol realistig, cynllun marchnata manwl ac, yn holl-bwysig, yr hyn y gall y buddsoddwr ei ddisgwyl yn gyfnewid am ei fuddsoddiad.

Mae rhwydweithio a defnyddio unrhyw gysylltiadau addas yn hanfodol er mwyn dod o hyd i ddarpar fuddsoddwyr priodol. Mae gan lawer o gynghorwyr cyllid corfforaethol rwydweithiau o gysylltiadau yn y gymuned o angylion busnes, y gymuned VC a'r gymuned PE. Gall defnyddio cynghorydd helpu'r broses.

Bydd llawer o fuddsoddwyr preifat yn canolbwyntio ar sectorau diwydiannol neu ardaloedd daearyddol penodol. Efallai y gall y cymdeithasau a ganlyn eich helpu i ddod o hyd i fuddsoddwyr, rhwydweithiau neu gyfleoedd i rwydweithio:

- Cymdeithas Angylion Busnes y Deyrnas Unedig – gweler **ukbusinessangelsassociation.org.uk**;
- y BVCA – gweler **bvca.co.uk**; a
- Invest Europe (sef Cymdeithas Ecwiti Preifat a Chyfalaf Menter Ewrop (EVCA) gynt) – gweler **investeurope.eu**.

## Ecwiti cyllido torfol

Mae'n fwyfwy cyffredin i gwmnïau sydd am godi cyllid ecwiti wneud hynny drwy ecwiti cyllido torfol. Mae hyn i bob pwrpas yn fodd i gysylltu cwmnïau â channoedd o filoedd o fuddsoddwyr posibl, y gall rhai ohonyn nhw fod yn gwsmeriaid ar hyn o bryd neu yn y dyfodol. Mae'n gwneud hyn drwy gyplysu cwmnïau â darpar angylion drwy gyfrwng y rhyngrwyd.

Gall godi cyllid ecwiti drwy gyllido torfol fod yn ddewis arall yn lle chwilio am gyllid angylion neu gyllid VC drwy gyfryngau mwy traddodiadol – i gwmnïau sy'n dechrau, cwmnïau yn eu dyddiau cynnar a chwmnïau twf.

Cyn ichi osod cais am fuddsoddiad ecwiti ar lwyfan cyllido torfol, byddai angen ichi ddangos bod eich busnes yn barod ar gyfer buddsoddiad. Fel wrth ddenu buddsoddiad traddodiadol gan angel neu VC, byddai angen ichi lunio cynllun busnes a rhagolygon ariannol. Gallai busnes gynnwys fideo hefyd i grynhoi'r cyfle.

At ei gilydd, ffi lwyddiant a ffioedd cyfreithiol ynglŷn â'r dyraniad fydd y ffioedd sy'n daladwy am godi cyllid ecwiti ar lwyfan cyllido torfol. Gallech ysgwyddo ffioedd cyfreithiol a ffioedd ymgynghorol ychwanegol wrth baratoi'r cais. Mae rhywfaint o ddiwydrwydd dyladwy yn cael ei gyflawni fel arfer gan y llwyfan ac mae'n bosibl y bydd gan y buddsoddwr yr opsiwn o ofyn am ragor o wybodaeth. Er bod y buddsoddiad yn cael ei restru ar y llwyfan, fydd buddsoddwyr ddim yn cael eu cynghori i fuddsoddi mewn cynnig ecwiti penodol.

Dyma'r tri phrif fodel:

- cyllido torfol pur, lle mae pob buddsoddwr yn gyfartal a lle daw pob un yn gyfranddeiliaid uniongyrchol;
- cyllido torfol dan arweiniad angel: lle mae un buddsoddwr profiadol yn arwain, gan negodi'r telerau a'r diwydrwydd dyladwy, ac mae'r dorf yn dilyn; a
- cyllido torfol gyda strwythur enwebai, lle mae'r llwyfan yn chwarae rhan barhaus gan gynrychioli buddiannau eu torf o fuddsoddwyr drwy benodi un enwebai.

Gall gylluniau cyllido torfol fod yn gymwys ar gyfer rhyddhad SEIS neu EIS (gweler y blwch ar dudalen 12).

Mae ecwiti cyllido torfol yn cael ei reoleiddio gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol (FCA).

Mae rhai llwyfannau cyllido torfol yn cynnig ecwiti a chyllid dyled.

Cewch ragor o wybodaeth ar wefan Cymdeithas Cyllido Torfol y Deyrnas Unedig, **ukcfa.org.uk**.

Mae **Banc Busnes Prydain** wrthi'n hybu amrywiaeth a chystadleuaeth mewn marchnadoedd buddsoddi ecwiti ar gyfer busnesau bach y Deyrnas Unedig drwy ymrwymo cyfalaf i gronfeydd buddsoddi. Mae'n gwneud hyn drwy'r cronfeydd a ganlyn.

Mae **Cronfeydd Cyfalaf Menter** yn gronfeydd masnachol sy'n dwyn ynghyd arian preifat a chyhoeddus i wneud buddsoddiadau ecwiti mewn busnesau sy'n tyfu'n fawr. Mae'r buddsoddiad yn annog cronfeydd cyfalaf menter i weithredu mewn rhan o'r farchnad lle nad yw busnesau bach yn gallu cyrchu'r cyfalaf twf y mae arnyn nhw ei angen.

Mae'r **Gronfa Catalyddion Cyfalaf Menter** yn buddsoddi mewn cronfeydd cyfalaf menter hyfyw a allai fethu fel arall â chyrraedd 'diwedd cyntaf' boddhaol.

Mae **Cronfa Buddsoddi Arloesol y Deyrnas Unedig** (UKIIF) yn helpu i greu cronfeydd buddsoddi hyfyw sy'n targedu busnesau technoleg yn y Deyrnas Unedig sy'n tyfu'n fawr.

Mae Banc Busnes Prydain hefyd yn buddsoddi ochr yn ochr ag angylion busnes drwy gyfrwng **Cronfa Cydfuddsoddi Angylion Busnes (Angel CoFund)**, sy'n helpu busnesau sydd â photensial cryf i dyfu.

Mae rhagor o wybodaeth am y rhain ac atebion eraill gan Fanc Busnes Prydain ar gael yn **british-business-bank.co.uk**.

## Rhestru'n gyhoeddus

Gallai'r cyfnod nesaf o dwf busnes olygu gwneud cais am restru cyfrannau yn y busnes yn gyhoeddus.

Y marchnadoedd yn y Deyrnas Unedig yw Prif Farchnad Cyfnewidfa Stoc Llundain, AIM a Chyfnewidfa Gwarannau a Deilliadau ICAP (ISDX). Mae rhestru'n gyhoeddus yn garreg filltir fawr ar siwrnai'r cwmni.

Mae proses rhestru'n cymryd llawer o amser ac amrediad o gynghorwyr, ond mae'n gyfle i gwmni gymryd golwg feirniadol arno'i hun. Rhaid i'r penderfyniad i lansio IPO (cynnig cyhoeddus cychwynnol) neu arnofiant gael ei seilio ar asesiad realistig o'r busnes, ei reolwyr, pa gyfnod y mae wedi cyrraedd yn ei ddatblygiad a beth yw ei ragolygon.

Gall cwmni gael ei restru i godi arian er mwyn:

- ariannu cyfleoedd i dyfu;
- ariannu pryniadau;
- ailgydbwyso'r fantolen;
- ehangu cronfa cyfranddeiliaid y cwmni; neu
- ddarparu arian parod adeg y rhestru neu wrth fasnachu cyfrannau yn y cwmni.

Mae **Prif Farchnad Cyfnewidfa Stoc Llundain** yn cynnig mynediad i gwmnïau i gronfeydd cyfalaf dyfnaf Ewrop yn ogystal ag i fanteision allweddol proffil uwch a mwy o arian parod.

Yn achos cwmnïau masnachu masnachol, ceir tri math o restru ar y Brif farchnad. Yn gyntaf ceir Rhestru Premiwm neu Safonol. Mae gan y dull cyntaf ofynion llymach, megis arnofiant di-rwystr ar gyfer 25%, ond mae angen hanes o fasnachu dros dair blynedd ar gyfer y ddau. Mae'n bosibl hefyd y gall busnesau twf mawr nad ydyn nhw'n gymwys ar gyfer Rhestru Premiwm gyrchu cyfalaf drwy'r Segment Twf Uchel, sy'n gofyn am arnofiant di-rwystr ar gyfer 10% ac sy'n gyfle i gwmnïau cymwys ariannu eu twf tra byddan nhw'n paratoi ar gyfer rhestru swyddogol maes o law.

Drwy gael eu rhestru ar y Brif Farchnad, caiff cwmnïau:

- mynediad i bris cyfrannau cadarn mewn amser real;
- mynediad i gronfeydd dwfn o gyfalaf;
- meincnodi drwy Gyfres Mynegeion FTSE UK; a
- phroffil uchel drwy sylw yn y cyfryngau, ymchwil i fuddsoddiadau a chyhoeddiadau.

Cewch ragor o wybodaeth yn **londonstockexchange.com**.

Yn ychwanegol, bydd rhestru cwmni'n gyhoeddus yn cynyddu ei broffil ymysg ystod eang o randdeiliaid, gan gynnwys cwsmeriaid, cyflenwyr a chymheiriaid, gan ganiatáu iddo gynnig cymhellion i'w weithwyr yn haws drwy gynlluniau opsiynau cyfrannau.

Os oes gan eich busnes hanes o fasnachu a chynlluniau i dyfu ymhellach, byddai mewn sefyllfa i godi cyfalaf ecwiti drwy IPO (arnofiant). Wedyn byddai cyfran o'i gyfrannau'n cael ei rhestru ar gyfnewidfa stoc a'u masnachu yn y farchnad eilaidd. Mae IPO yn golygu gwerthu cyfrannau i fuddsoddwyr mawr a sefydliadol ac, weithiau, i'r cyhoedd.

Mae'r cyfnod wrth i'r cwmni geisio cael ei restru yn gallu cael ei rannu'n fras yn ddau – paratoi ar gyfer yr IPO a phroses yr IPO ei hun. Mae paratoi ar gyfer yr IPO yn cynnwys adolygiad beirniadol ar gynllun busnes y cwmni a'i ragolygon ar gyfer twf, asesu'r tîm rheoli, penodi bwrdd priodol, tynhau'r rheolau mewnol, gwella effeithlonrwydd wrth weithredu a datrys materion a allai effeithio'n andwyol ar y rhestriad yn y dyddiau cynnar.

Dylai cwmni gadw'r canlynol mewn cof.

- Bydd angen i'r **tîm rheoli** allu esbonio'r busnes, ei strategaeth a'i ragolygon yn glir i fuddsoddwyr, a dangos gwybodaeth o'r farchnad a'i heriau.
- Bydd angen **cynllun busnes** cynhwysfawr, a fydd yn nodi'r cynhyrchion, y marchnadoedd, yr amgylchedd cystadleuol, y strategaeth, y galluoedd a'r amcanion ar gyfer twf.
- Yn ddelfrydol, dylai **perfformiad ariannol** y cwmni fod yn un cyson o dwf yn y gwerthiant gros a'r elw net, gyda mantolen gadarn ar ôl yr IPO.
- Dylai model ariannol ddangos **rhagolygon twf y cwmni a'r risgiau perthynol yn glir** er mwyn rhoi hyder i'r buddsoddwyr.
- Os yw'r cwmni wrthi'n codi cyfalaf newydd, **dylai defnydd yr enillion** gael ei fynegi'n glir a dylai gyd-fynd â'r strategaeth.
- Mae arnoch angen **rheolaeth ariannol** briodol.
- Bydd angen i gwmni sy'n cael ei restru'n gyhoeddus fynegi ei drefniadau **llywodraethu corfforaethol** yn glir er mwyn dangos bod ganddo fwrdd sy'n gallu rhedeg cwmni cyhoeddus.

Mae'r IPO yn gam yng nghylch twf y cwmni ac mae'n nodi dechrau ei fywyd fel cwmni cyhoeddus, sy'n creu galwadau parhaus penodol ar y busnes. Rhaid llunio datganiadau ariannol a mabwysiadu codau llywodraethu corfforaethol er mwyn darparu fframwaith ar gyfer ymwneud â chyfranddeiliaid yn y tymor hir. Mae cwmnïau sy'n rhan o gyfnewidfa stoc yn cael eu monitro gan gyfranddeiliaid, gan fod eu cronfa cyfranddeiliaid yn debyg o newid yn amlach, a bod yna bosibilrwydd bob amser y bydd y rheolaeth yn newid. Yn gyffredinol, bydd yna lawer mwy o graffu ar weithredoedd y cwmni, yn unol â'r disgwyl pan fo ganddo gronfa ehangach o gyfranddeiliaid ac y gall y cyhoedd brynu cyfrannau ynddo. I lawer o dimau rheoli mae hyn yn well na chael nifer lai o gyfranddeiliaid preifat mwy dominyddol.

Gweithgareddau cysylltiadau buddsoddwyr (IR) yw'r term sy'n cael ei ddefnyddio i ddisgrifio'r cysylltiadau y mae'n rhaid i'r cwmni eu creu â'r gymuned o fuddsoddwyr. Mae'n gymysgedd o weithgareddau rheoleiddiol a gwirfoddol ac yn y bôn mae'n rhan o'r bywyd cyhoeddus sy'n gweld cwmnïau rhestredig yn rhyngweithio ac yn codi eu proffil ymysg cyfranddeiliaid presennol a phosibl, dadansoddwyr a newyddiadurwyr, cwsmeriaid a chyflenwyr, gan ddatgelu gwybodaeth am ddatblygiadau newydd. Mae gweithgareddau IR yn galw am ddull cynlluniedig a strategol.

Pan fydd y cwmni ar y farchnad, bydd ganddo fynediad i ragor o gyfalaf ecwiti, drwy gyfrwng dyraniad ychwanegol, os bydd arno angen rhagor o gyllid ar ei siwrnai.


**AIM** yw marchnad Cyfnewidfa Stoc Llundain ar gyfer cwmnïau llai sy'n tyfu. Mae gofynion AIM ynghylch cymhwystra a'i ofynion parhaus yn llai na gofynion y Brif Farchnad ac yn fodd i fusnesau sydd yn eu cyfnodau cynnar, gan gynnwys y rhai sydd â chefnogaeth angylion a chyfalaf menter, fanteisio ar arnofiant ar farchnad. Mae'n cynnig llwyfan byd-eang i'r busnesau hyn godi eu proffil a sicrhau mynediad i gyfalaf parhaol.

Mae **ISDX** yn gyfnewidfa stoc yn Llundain sy'n cynnig mynediad i gwmnïau o'r Deyrnas Unedig ac yn rhyngwladol i gyfalaf Ewropeaidd drwy amryw o farchnadoedd cwbl-restredig a marchnadoedd twf.

Mae **Marchnad Twf ISDX** yn ffynhonnell cyfalaf ecwiti i gwmnïau bach a chanolog sy'n dod i farchnad gyhoeddus am y tro cyntaf, yn ogystal ag i ddyranwyr presennol gael codi rhagor o arian. Mae'r broses dderbyn a'r rheoliadau parhaus wedi'u bwriadu i ateb anghenion cwmnïau llai.

Mae **Prif Fwrdd ISDX** yn farchnad a reoleiddir gan yr UE sy'n ateb anghenion cwmnïau a dyranwyr eraill sy'n chwilio am gyfle cost-effeithiol i gael eu masnachu drwy Restr Swyddogol yr UKLA neu Awdurdodaeth Gymwys Ewropeaidd arall.

**isdx.com**



Adnabod eich opsiynau:

# Cyllid dyled

Ddylai cyfalaf byrdymor ddim cael ei ddefnyddio i ariannu cynlluniau hirdymor, ac mae'r gwrthwyneb yn wir hefyd. Ar y siwrnai gyllido, mae'n debyg iawn y bydd arnoch chi angen y ddau, a'r gamp yw sicrhau'r cymysgedd cywir. Mae'n sicr y bydd angen dyled wrth i fusnes dyfu. Mae dyled ar gael mewn llawer ffurf, bob un yn gallu bod yn fwy neu'n llai priodol ar gyfer y math o fusnes, pa gyfnod yn ei ddatblygiad y mae wedi'i gyrraedd neu'r cynlluniau sydd ganddo i dyfu. Ac yn aml bydd cwmni sydd wedi ennill ei blwyf yn defnyddio cymysgedd o wahanol fathau o ddyledion gan ystod o ddarparwyr.

Gall dyled gael ei defnyddio at fuddsoddiadau yn y tymor hirach a/neu i ariannu cyfalaf gweithredol. Yn achos y cyntaf, gall benthyciad, trefniant prydlesu neu fond fod yn fwy priodol ac yn achos yr ail mae'n debyg y bydd rhyw fath o orddrafft neu gyllid seiliedig ar asedau (ABF) yn fwy priodol. Ar unrhyw gyfnod yn ei ddatblygiad mae'n debyg y bydd ar gwmni angen cymysgedd o wahanol fathau o ddyled. Mae gan bob un ei fanteision ar gyfer agweddau gwahanol ar gynlluniau twf y busnes.

Yn yr ystyr symlaf, mae dyled yn golygu trefniant rhwng y sawl sy'n cymryd benthyciad a'r sawl sy'n ei roi. Mae swm cyfalaf yn cael ei gymryd ar fenthyg ar yr amod bod y swm hwnnw'n cael ei ad-dalu yn llawn naill ai ar ddyddiad yn nes ymlaen (ad-daliad bwled), ar amryw o ddyddiadau, neu dros gyfnod o amser. Mae llogau'n cronni ar y ddyled ac mae ad-daliad y busnes fel arfer yn cynnwys elfen o ad-dalu cyfalaf a llog.

Yn wahanol i ecwiti, nid yw dyled yn golygu ildio cyfran o berchnogaeth neu reolaeth y busnes. Er hynny, mae benthyciwr yn llawer llai tebyg o helpu busnes i fireinio'i strategaeth nag angel busnes neu fuddsoddwr VC.

Ceir tri chategori bras o ddyled:

- benthyciadau a gorddrafftiau;
- cyllid wedi'i warantu ar asedau; a
- gwarannau dyled incwm sefydlog.

Bydd benthyciadau gan fanciau neu sefydliadau benthyca eraill ar gael yn bennaf ar ffurf gorddrafftiau neu fenthyciadau am gyfnod penodol. Ceir hefyd fenthyciadau busnes cymar-i-gymar (P2P) a benthyciadau cychwynnol.

Mae cyllid sy'n cael ei warantu ar asedau'n cynnwys trefniadau dyled megis cyllid asedau (prydlesu neu hurbwrcas) ac ABF (disgowntio anfonebau, ffactorio, benthyciadau seiliedig ar asedau (ABL) a chyllid y gadwyn gyflenwi). Darperir y rhain gan y mwyafrif o fanciau a chwmnïau arbenigol mewn cyllid asedau ac ABF gan gynnwys rhai llwyfannau ar-lein.

Ceir gwarannau dyled incwm sefydlog ar ffurf bondiau neu fini-fondiau.

Mae undebau credyd yn fentrau cydweithredol sy'n gallu cynnig benthyciadau i'w haelodau. Cewch ragor o wybodaeth yn **abcul.org/home**. Mae yna sefydliadau cyllid datblygu cymunedol hefyd sy'n darparu benthyciadau micro-gyllid i fusnesau ac unigolion sy'n dechrau yn ogystal ag i fentrau sydd wedi ennill eu plwyf. I gael rhagor o wybodaeth, ewch i **findingfinance.org.uk**.

Mae'r hyn sydd fwyaf priodol yn dibynnu ar ddiben y cyfalaf sy'n cael ei fenthyca, hanes credyd y benthyciwr, y swm, cyfnod yr ad-daliadau a'r gyfradd log sy'n cael ei had-dalu. Gallwch weld yr hyn sydd ar gael gan wahanol ddarparwyr yn **betterbusinessfinance.co.uk**.

## Gorddrafftiau a benthyciadau banc

Gorddrafft sy'n cael ei ddefnyddio'n aml gan fusnes i helpu i ariannu cyfalaf gweithredol ac i dalu am ofynion byrdymor. Ran amlaf, bydd benthyciadau, prydlesau neu gytundebau hur-bwrcas yn fwy addas wrth brynu dros gyfnod hirach, megis buddsoddi mewn offer a pheiriannau, cyfrifiaduron neu gludiant.

Yr hyn sydd bron bob amser yn wir yw y bydd yr entrepreneur ar ei ennill o gael gwybodaeth, dirnadaeth a rhwydwaith cynghorwyr sy'n ymdrin o ddydd i ddydd â banciau a darparwyr cyllid eraill, a dylai busnesau eu hunain feithrin perthnasoedd â banciau a darparwyr cyllid eraill, a allai helpu i ateb anghenion ariannol yn y dyfodol yn hytrach nag anghenion presennol yn unig.

I sicrhau benthyciad neu orddrafft, rhaid i'r rheolwyr ddangos i'r benthyciwr y bydd y busnes yn creu'r incwm a'r arian parod i dalu am y cyfleuster yn ôl telerau'r benthyciad, ac i dalu am y benthyciad drwy dalu'r taliadau llog. Gall amodau'r farchnad a gofynion mewn rheoliadau, megis y rhai sy'n mynnu bod benthyciadau i fusnesau hyfyw yn gorfod bod yn gyfrifol, effeithio hefyd ar ba mor hawdd fydd hi i fusnes drefnu benthyciad neu orddrafft.

Mae'n debyg y bydd angen i'r busnes roi gwarant dros unrhyw arian sy'n cael ei fenthyca yn erbyn asedau personol eraill neu asedau'r busnes . Efallai y gall y benthyciwr ddefnyddio'r rhaglen Gwarant Cyllid Menter (gweler y blwch ar dudalen 19).

**Cronfeydd dyled**

Yn fwyfwy mae cronfeydd dyled yn cynnig rhoi benthyciadau yn uniongyrchol i fusnesau. Mae hyn wedi'i dargedu'n fwy ar fusnesau mawr ac mae wedi codi yn sgil yr argyfwng ariannol, wrth i'r cronfeydd gamu i mewn lle mae'r banciau wedi'u gorfodi i leihau eu llyfrau benthyca oherwydd rheolau ar hylifedd. At ei gilydd, bydd y benthyciad yr un fath yn union â benthyciad banc o ran y telerau. Yn aml bydd cronfeydd dyled yn cydfenthyca ochr yn ochr â banciau.

## Benthyciadau cymar-i-gymar

Un peth mawr newydd o ran cyflenwi dyled ar gyfer busnes yw benthyciadau busnes P2P. Yma mae llwyfannau ar y rhyngrwyd yn cael eu defnyddio i gysylltu rhai sy'n rhoi benthyg arian â rhai sy'n dymuno cymryd benthyciad. Mae'r Deyrnas Unedig ar flaen y gad o ran arloesi yn y math hwn o gyllid ar-lein amgen sy'n tyfu'n gyflym.

Mae benthyciad busnes P2P yn ddewis arall yn uniongyrchol yn lle benthyciad banc. Yn aml mae'n gallu cael ei drefnu'n gynt ac mae'n caniatáu i bartneriaid, cwsmeriaid a ffrindiau a theulu sy'n rhoi benthyciad drwy'r llwyfan rannu yn enillion y busnes. Gall y buddsoddwyr roi benthyg rhannau bach o fenthyciadau unigol, mewn symiau bach iawn, sy'n annog ystod eang o fenthycwyr i gymryd rhan ar draws sawl benthyciad. Mae maint benthyciadau busnes P2P yn amrywio o ychydig filoedd o bunnoedd i rai miliynau, ac mae'r terfyn uchaf yn codi wrth i'r diwydiant dyfu.

Mae gan lwyfannau feini prawf gosod i ddiffinio pa fusnesau a gaiff gymryd benthyciad drwy'r llwyfan. Maen nhw fel arfer yn gofyn i'r rhai sy'n cymryd benthyciad ddangos hanes masnachu a chyflwyno cyfrifon ariannol, gan gynnal gwiriadau credyd fel rhan o'r asesiad credyd. Mae'r llwyfannau naill ai'n cynnig cyfradd osod neu, weithiau, bydd y rhai sy'n rhoi benthyg yn cynnig am fenthyciadau drwy gynnig cyfradd log y maen nhw'n fodlon rhoi benthyciad arni. Yn yr achos hwn, bydd y rhai sy'n cymryd y benthyciad yn derbyn y cynnig sy'n rhoi'r gyfradd log isaf.

Yr FCA sy'n rheoleiddio benthyciadau P2P. Mae benthyciadau P2P wedi bod yn gymwys i gael eu dal mewn Cyfrifon Cynilo Personol Cyllid Arloesol (IF ISAs) ers 6 Ebrill 2016.

Ceir rhagor o wybodaeth ar wefan y Gymdeithas Cyllid Cymar-i-Gymar, **p2pfa.info**.

## Cyllid asedau

Mae prydlesu a hur-bwrcas yn fathau o gyllid sy'n cael eu defnyddio gan fusnesau i sicrhau ystod eang o asedau – popeth o offer swyddfa i gerbydau – ac efallai mai dyma'r ateb delfrydol os oes arnoch angen offer na fyddech yn gallu ei fforddio fel arall oherwydd cyfyngiadau llif arian.

Am fod cytundebau prydlesu a hur-bwrcas yn cael eu gwarantu yn gyfan gwbl neu'n rhannol ar yr ased sy'n cael ei ariannu, mae'r angen am warant gyfochrog yn llawer llai. Mae yna fwy o sicrwydd i'r defnyddiwr gan na all y cyllid gael ei adalw yn ystod oes y cytundeb, ar yr amod bod y busnes yn parhau â'r ad-daliadau.

Mae cwmni prydlesu'n prynu'r offer, sy'n perthyn iddo wedyn pan fo'n ei rentu i'r busnes am gyfnod gosod. Mae gan y busnes yr opsiwn hefyd o adnewyddu'r offer neu ei uwchraddio ar ddiwedd cyfnod y brydles. Fel rheol, bydd cyfradd log osod ynglŷn â'r brydles, ac mae hynny'n pennu'r gwariant ar yr ased hwnnw.

Os hoffai'r busnes fod yn berchen ar yr offer ar ddiwedd y cytundeb, ond osgoi'r effaith a gâi prynu'n llwyr ar ei lif arian, yna mae hur-bwrcas yn opsiwn. Bydd cwmni cyllid yn prynu'r offer a bydd y busnes yn ad-dalu'r pris arian parod ynghyd â llog drwy ad-daliadau cyson. Mae'r cytundebau hyn fel arfer ar gael ar gyfraddau llog gosod hefyd. Ar ddiwedd y cytundeb mae yna ffi mewn enw i'w thalu fel rheol, er mwyn sicrhau teitl yr offer.

Mae'r modd yr ymdrinnir â chytundebau prydlesu a hur-bwrcas mewn cyfrifon yn wahanol. Gall cyfrifydd siartredig gynghori ar hyn.

Mae prydlesau a hur-bwrcas ar gael yn uniongyrchol oddi wrth ddarparwyr arbenigol, neu'n anuniongyrchol drwy gyflenwyr offer neu froceriaid arian.

Mae'r mwyafrif o ffyrmiau sy'n cynnig cyllid asedau yn y Deyrnas Unedig yn aelodau o'r Gymdeithas Cyllid a Phrydlesu (FLA) a byddai eu holl gytundebau nhw'n dod o dan y safonau llym a nodir yng Nghod Ymddygiad Busnes yr FLA. Rhagor o wybodaeth yn **fla.org.uk/asset**.

## Cyllid seiliedig ar Asedau

Mae ABF yn derm cyfun sy'n cael ei ddefnyddio i ddisgrifio cyllid anfonebau (IF) a benthyciadau seiliedig ar asedau (ABL). Mae IF yn cynnwys ffactorio a disgowntio anfonebau, sydd ill dau'n cynnwys darparu cyllid yn erbyn dyledion sydd eisoes yn bodoli.

Gall IF gael ei ddefnyddio i helpu llif arian ac i ryddhau arian i'w fuddsoddi drwy gynhyrchu arian yn erbyn anfonebau sydd heb eu talu. Mae IF ar gael i fusnesau sy'n gwerthu cynhyrchion neu wasanaethau ar gredyd i fusnesau eraill. Mae'r cyllid a ddarperir yn tracio twf y busnes – mae cynyddu trosiant yn datgloi rhagor o gyllid.

Mae cyllid anfonebau sengl, lle mae cyllid yn cael ei godi yn erbyn anfonebau unigol, yn hytrach na chyfanswm y trosiant, ar gael hefyd ond yn gyffredinol mae'n fwy costus. Mae llwyfannau anfonebau P2P, sy'n chwarae rhan brocer, hefyd yn chwarae rhan gynyddol i ddarparu cyllid anfonebau.

- **Mae Ffactorio** yn golygu darparu cyllid drwy werthu anfonebau i'r cyllidwr (y ffactor), sef dyledion sy'n ddyledus i'r busnes. Bydd y ffactor yn rhoi'r rhan fwyaf o werth yr anfonebau pan roddir gwybod amdanyn nhw a bydd gweddill y gwerth ar gael ar ôl i'r dyledwyr dalu eu hanfonebau. Mae'r ffactor yn gweithio ar ran y busnes – gan reoli'r ledjer gwerthiannau a chasglu arian sy'n ddyledus oddi wrth gwsmeriaid.
- I bob pwrpas, mae ffactorio'n cyfuno cyllid ag elfen o wasanaeth, gan helpu'r busnes i reoli credyd, a all fod yn arbennig o werthfawr i fusnes bach. **Mae ffactorio allforion** ar gael hefyd i helpu busnesau sy'n gwerthu'n rhyngwladol.
- Gall ffactorio gael ei ddarparu ar sail **atebolrwydd** neu **heb atebolrwydd**. Mae'r un olaf yn ymgorffori amddiffyniad i'r busnes rhag dyledion drwg.
- Mae **disgowntio anfonebau** yn debyg i ffactorio, ond bod y busnes yn cadw rheolaeth dros waith gweinyddu'r ledjer gwerthiannau. Byddai disgowntiwr anfonebau am ei fodloni ei hun ynghylch ansawdd systemau ledjer gwerthiannau'r busnes a'i weithdrefnau. Gall ID gael ei ddefnyddio hefyd i helpu allforion.
- **Cyllid y gadwyn gyflenwi** (hefyd, **ffactorio gwrthol**) yw lle mae cyflenwr bach yn gallu manteisio ar gryfder credyd eu cwsmeriaid mwyaf. Mae cyllid y gadwyn gyflenwi'n gofyn am gynnwys y cyflenwr a'u cwsmer a gall hyd at 100% o werth yr anfonebau gael ei ariannu pan fo'r rheiny wedi'u cymeradwyo gan y cwsmer, yn aml ar gyfraddau mwy cystadleuol nag a fyddai ar gael fel arall. Gallwch gyrchu cyllid y gadwyn gyflenwi yn uniongyrchol drwy rai sefydliadau mawr a hefyd drwy nifer cynyddol o ddarparwyr amgen.
- Yn y gorffennol mae ABL wedi'i weld fel cynnyrch mwy soffistigedig i'r busnesau bach a chanolig (BBaChau) mwyaf a chorfforaethau canolig eu maint, ond erbyn hyn mae ar gael yn fwyfwy i fusnesau bach hefyd. Mae ABL yn cael ei ddarparu fel arfer ar sail debyg i gyllid anfonebau, gyda'r cyllid yn cael ei gynnig yn erbyn dyledion, ond mewn trefniant ABL mae hyn yn cael ei ategu â chyllid yn erbyn cronfa ehangach o asedau, sydd fel rheol yn cynnwys stoc, eiddo, offer, peiriannau a gall hefyd gynnwys eitemau anniriaethol fel eiddo deallusol neu lifoedd incwm y dyfodol. Gall ABL gael ei ddefnyddio wrth i fusnesau uno a phrynu busnesau eraill, wrth i reolwyr brynu busnesau ac wrth i gwmnïau gael eu gwrthdroi.
- Byddai cyllid anfonebau'n cael ei ddarparu fel arfer ar sail prynu'r dyledion sydd heb eu talu, (ac nid yw felly'n gallu cael ei ddisgrifio'n gywir fel benthyciad mewn termau cyfreithiol gofalus), ond byddai ABL fel rheol yn cynnwys codi gwarant ychwanegol dros yr asedau o dan sylw.
- Fel gydag unrhyw fath o gyllid, mae'n bwysig sicrhau cyngor ar y goblygiadau cyfreithiol ac ariannol a'r goblygiadau treth cyn gwneud unrhyw gytundeb.

## Pwyso a mesur

**Manteision gwahanol fathau o ddyled**

- Gall y telerau gael eu teilwra i ateb union anghenion y busnes.
- Mae'r ad-daliadau'n syml, felly gallwch gynllunio ar eu cyfer a threfnu'ch llif arian.
- Yn gyffredinol, mae benthyciad yn costio llai o ran llogau na gorddrafft dros yr un cyfnod.
- Dim ond ar y swm o arian sy'n cael ei ddefnyddio y bydd llogau'n cael eu talu mewn gorddrafft a dim ond os oes ei angen y bydd y cyfleuster yn cael ei ddefnyddio – felly mae'n rhoi hyblygrwydd. Yn yr un modd, gyda chyllid anfonebau dim ond ar y swm a ddefnyddir y bydd yr hyn sy'n cyfateb i logau'n cael ei dalu.
- Ceir rhyddhad treth ar daliadau llog.
- Mae prydlesu'n rhoi mynediad i fusnes i offer angenrheidiol heb ysgwyddo'r anfanteision ariannol sy'n dod yn sgil prynu'n llwyr.
- Mae prydlesu'n fath hyblyg o gyllid ar gyfer pob math o asedau am fod y benthyciadau'n cael eu gwarantu'n gyfan gwbl neu'n bennaf ar yr ased sy'n cael ei ariannu.
- Gall benthyciadau busnes P2P gael eu trefnu'n gynt yn aml na benthyciad banc.
- Yn aml bydd ystod eang o fenthycwyr yn cymryd rhan mewn benthyciad busnes P2P.
- Os gall busnesau wneud cais ar-lein, gall ceisiadau gael eu gwneud unrhyw bryd yn ystod y dydd neu'r nos heb fod angen mynd i gangen.

**Ystyriaethau eraill**

- Bydd benthycwyr bob amser yn cymryd i ystyriaeth hanes credyd personol neu hanes credyd busnes y sawl sy'n cymryd y benthyciad wrth benderfynu a ddylai roi benthyciad neu faint i'w roi.
- Mae benthyciadau'n llai hyblyg na gorddrafftiau – gall fod rhaid talu am arian sydd heb ei defnyddio a gall fod rhaid talu cosb am ad-dalu'n gynnar.
- Mae cael eich cloi mewn amserlen ad-dalu gaeth yn gallu peri problem os yw'ch llif arian yn dymhorol neu'n anghyson.
- Rhaid ad-dalu gorddrafft ar gais ac felly gall gael ei leihau neu ei alw i mewn os yw darparwr y cyllid o'r farn y gallai'r busnes fod mewn anawsterau.
- Mae'n debyg y bydd taliadau cosb am fynd dros y terfyn ar y gorddrafft.
- Ar gyfer symiau mawr, bydd angen gwarant yn erbyn y benthyciad bron bob amser, ynghyd â gwarant bersonol gan y cyfarwyddwyr neu'r perchnogion.
- Os yw'r busnes yn tyfu, bydd swm cyllid seiliedig ar asedau'n tracio'r twf.
- Dylid gofalu wrth bennu telerau ad-dalu prydles er mwyn sicrhau ei bod yn para yr un mor hir â'r cytundeb o leiaf.
- Mae cyfraddau llog mewn benthyciadau busnes P2P yn aml yn cael eu gosod gan y farchnad ar y llwyfan ac yn adlewyrchu lefel y cyflenwad o fenthyciadau busnes.

Mae'r rhan fwyaf o ddarparwyr cyllid seiliedig ar asedau yn y Deyrnas Unedig yn aelodau o'r Gymdeithas Cyllid Seiliedig ar Asedau (ABFA). Mae busnesau sy'n defnyddio aelod o'r ABFA yn dod o dan Fframwaith Safonau annibynnol; mae hwn yn cynnwys Cod sy'n nodi'r safonau a all gael eu disgwyl a Chyngor Safonau Proffesiynol annibynnol. Hefyd, bydd gan y mwyafrif o'r busnesau sy'n gleientau i aelodau'r ABFA fynediad i broses gwynion annibynnol sy'n cael ei darparu ar hyn o bryd gan Wasanaethau'r Ombwdsmon. Mae rhagor o wybodaeth am y Fframwaith Safonau ar gael yn: **abfa.org.uk/standards**. Gallwch edrych i weld a yw darparwr cyllid yn aelod o'r ABFA yn: **abfa.org.uk/members/memberslist.asp**.

## Blaensymiau arian masnachwyr

Blaensymiau arian heb warant yw'r rhain, sydd wedi'u seilio ar werthiannau'r dyfodol drwy gardiau credyd a debyd. Maen nhw'n cael eu had-dalu dwy ganran, y cytunir arni ymlaen llaw, o drafodion y busnes ar gardiau. Yn wahanol i lawer o fathau o gyllid busnes, does dim angen defnyddio asedau'r cwmni nac asedau personol yn warant. Os yw'r blaenswm yn cymryd mwy o amser i'w dalu, mae'r gost ad-dalu y cytunwyd arni'n wreiddiol yn parhau yr un fath.

> Mae **Business Banking Insight (BBI)** yn wefan annibynnol sy'n ystyried pa mor dda yw'r gwasanaeth a gaiff busnesau bach a chanolig y Deyrnas Unedig gan fanciau a darparwyr cyllid eraill. Cafodd gwefan y BBI ei gomisiynu gan ganghellor y trysorlys i ddechrau ac erbyn hyn mae'n cael ei reoli gan Ffederasiwn y Busnesau Bach a Siambrau Masnach Prydain, ac mae'n cynnwys profiadau mwy nag 20,000 o fusnesau. Mae'n dangos eu barn am eu banciau a'u darparwyr cyllid, ar draws ystod o gynhyrchion a gwasanaethau. I gael rhagor o wybodaeth, ewch i: **businessbankinginsight.co.uk**.

## Bondiau a mini-fondiau

Mae bondiau – bondiau manwerthol neu fondiau corfforaethol – yn ffordd i gwmnïau fenthyg arian oddi wrth fuddsoddwyr yn gyfnewid am daliadau llog rheolaidd. Mae iddyn nhw ddyddiad 'aeddfedu' sydd wedi'i benderfynu ymlaen llaw pan fydd y bond yn cael ei adbrynu a phan fydd y buddsoddiad gwreiddiol yn cael ei ad-dalu i'r buddsoddwyr. Mae'r benthyciwr wedi'i glymu i'r trefniant nes i'r bondiau aeddfedu. Gall bondiau fod yn well na benthyciadau yn yr ystyr y gall y busnes sy'n dyrannu'r bond arddel mwy o reolaeth dros delerau penodol y cyllid.

Yn draddodiadol, câi bondiau corfforaethol a bondiau manwerthol eu masnachu ar y farchnad stoc a dim ond i'r cwmnïau mwyaf a oedd â hanes masnachu y bydden nhw ar gael. Ond, mae hyn yn newid. Yn ddiweddar, mae llwyfannau cyllido torfol wedi dod i'r farchnad, gan gynnig siop-un-stop ar gyfer codi cyllid drwy fondiau. Mae'r llwyfannau hyn yn gweithio mewn ffordd debyg i lwyfannau benthyca cymar-i-gymar ond maen nhw'n cynnig yr hyblygrwydd sydd gan fondiau, ac yn gyffredinol maen nhw'n gweithio â symiau mwy o arian (sef £1m a mwy fel arfer).

Mae mini-fondiau'n debyg ond, yn holl-bwysig, dydyn nhw ddim yn cael eu masnachu ar farchnad stoc a dim ond i fathau penodol o fuddsoddwr y gallan nhw gael eu hyrwyddo. Mae'r benthyciwr hefyd wedi'i glymu i'r trefniant nes i'r bondiau aeddfedu.

> Mae **Banc Busnes Prydain** yn hwyluso marchnadoedd cyllid dyled mwy effeithiol ac effeithlon i fusnesau bach y Deyrnas Unedig drwy ddarparu gwarantau ar fenthyciadau a phortffolios benthyciadau, a thrwy fuddsoddi'n uniongyrchol i gefnogi benthyciadau.
>
> Mae'r **rhaglen Gwarant Cyllid Menter** yn darparu gwarantau ar gyfer benthyciadau, gan annog sefydliadau benthyca, gan gynnwys banciau, i roi benthyg i fusnesau bach hyfyw a fyddai fel arall yn cael eu gwrthod am eu bod heb warant ddigonol.
>
> Mae **rhaglen Gwarantau ENABLE** yn darparu gwarantau ar bortffolios benthyciadau, gan helpu benthycwyr i ddatgloi mwy o fenthyciadau i fusnesau bach drwy eu galluogi i ddefnyddio'u cyfalaf yn fwy effeithlon, gan ryddhau capasiti.
>
> Mae **rhaglen Cyllido ENABLE** yn trefnu bod cyllid cost-effeithiol ar gael i ddarparwyr cyllid asedau a chyllid prydlesu, gan eu helpu i gynyddu eu darpariaeth i fusnesau bach y Deyrnas Unedig.
>
> Mae **rhaglen Help i Dyfu** (peilot) yn gweithio drwy bartneriaid i fynd i'r afael ag anghenion ariannol busnesau bach sy'n ei chael yn anodd codi digon o uwch-ddyled i ariannu eu cyfleoedd twf.
>
> Mae **Rhaglenni Buddsoddi** yn gwneud buddsoddiadau masnachol, sy'n symbylu o leiaf yr un swm o fuddsoddiad gan y sector preifat, gan annog benthycwyr newydd i ddod i'r farchnad a hybu twf benthycwyr bach amgen, megis benthycwyr P2P.
>
> Banc Busnes Prydain hefyd sy'n goruchwylio'r cyllid a ddarperir ar gyfer y **Start-Up Loans Company** i weinyddu'r rhaglen. Mae benthyciadau dechrau busnes yn helpu pobl i ddechrau eu busnes eu hunain, gan lenwi'r bwlch lle mae benthycwyr yn llai parod i ariannu busnesau sydd wrthi'n dechrau. Maen nhw'n cyfuno benthyciad rhad â mentoriaid a chymorth o'r radd flaenaf, cyn i'r busnes ddechau a phan fydd wedi dechrau gweithredu.
>
> **startuploans.co.uk**

## Cyllid twf

Mae benthyciadau cyfalaf twf a chyllid mesanîn (cyllid twf) yn fathau hyblyg o gyllid dyled sy'n cael eu teilwra'n unswydd ar gyfer risgiau penodol y busnes, gyda chynllun ad-dalu i gyd-fynd â'r rhagolygon o'r arian y bydd y busnes yn ei gynhyrchu. Er mai mathau o ddyled yw'r rhain, maen nhw'n rhannu llawer o nodweddion ecwiti. Er hynny, maen nhw'n is eu safle nag uwch-ddyledion.

Mae'r ddau'n fwyaf priodol ar gyfer ariannu busnesau twf mawr, ac yn cael eu defnyddio fel rheol i ariannu ehangiad cwmnïau presennol gan fuddsoddwyr VC– i ddatblygu cynhyrchion, treiddio i farchnadoedd newydd, buddsoddi mewn seilwaith, neu i brynu'n strategol. Cyfalaf dyled yw cyllid twf yn y bôn ac mae'n rhoi hawl i'r benthyciwr ei droi'n fuddiant perchennog neu'n fuddiant ecwiti yn y cwmni os na chaiff y benthyciad ei dalu'n brydlon ac yn llawn.

Gan fod modd eu strwythuro â thalebau arian parod isel, maen nhw'n gallu lleihau'r baich ar yr arian parod, ac felly maen nhw'n arbennig o addas at ariannu twf mawr, lle gall uwch-ddyledion fod yn llai priodol.

## Cyllid allforio

Pan fydd busnesau'n allforio, mae angen iddyn nhw fod yn sicr y gallan nhw fforddio cynhyrchu'r nwyddau ac y cân nhw eu talu. Mae cyllid allforio'n helpu i leddfu risgiau megis peidio â chael eich talu neu daliadau gohiriedig.

Mae gweithgynhyrchwyr sy'n mewnforio deunyddiau crai yn wynebu heriau eraill. Mae cyflenwyr tramor am gael eu talu am ddeunyddiau cyn eu hanfon, felly mae angen cyllid i lenwi'r bwlch rhwng mewnforio'r deunyddiau crai a'r adeg y caiff y cynnyrch gorffenedig ei werthu. Dyna ble mae cyllid allforio'n bwysig.

Mae cyllid allforio'n cynnwys ystod eang o ddulliau, sydd i gyd yn cael eu defnyddio gan fanciau i reoli'r cyfalaf y mae ei angen i ganiatáu i fasnach ryngwladol ddigwydd mor hawdd ac mor ddiogel ag y bo modd. Mae'r dulliau traddodiadol fel a ganlyn.

- **Bondiau a gwarantau** – os bydd y gwerthwr yn methu cyflenwi'r nwyddau neu'r gwasanaethau a ddisgrifiwyd yn y contract, caiff y prynwr 'alw' y bond neu'r warant ac felly sicrhau iawndal ariannol gan fanc y gwerthwr. Mae'r mathau o fondiau a gwarantau yn cynnwys gwarantau tendro, gwarantau blaendaliadau, gwarantau arian cadw, gwarantau perfformiad a bondiau tollau.
- **Llythyrau credyd** – mae'r rhain yn cael eu rhoi gan fanc, gan warantu y daw taliad y prynwr i law'n brydlon ac am y swm cywir, a bwrw bod y nwyddau (neu'r gwasanaethau) wedi'i cyflenwi yn unol â'r cytundeb. Os na all y prynwr dalu'r cyfan neu unrhyw ran o'r swm y cytunwyd arno, bydd y banc yn talu'r gwahaniaeth. Mae'r banc hefyd yn gweithredu ar ran y prynwr – deiliad y llythyr credyd – drwy sicrhau na chaiff y cyflenwr ei dalu nes bod y nwyddau wedi'u hanfon.

**UK Export Finance** yw asiantaeth credydau allforio'r Deyrnas Unedig ac mae'n adran o'r llywodraeth. Mae'n gweithio i sicrhau na fydd allforion hyfyw o'r Deyrnas Unedig yn methu o ddiffyg cyllid neu yswiriant a hynny drwy gynnig:

- canllawiau annibynnol am ddim ynghylch ffynonellau cyllid allforio;
- rhyddhau cyfalaf gweithredol â gwarantau banc ar gyfer cyfleusterau allforio neu fondiau contract;
- sicrwydd taliadau ag yswiriant credydau allforio; a
- phecynnau cyllid cystadleuol i brynwyr tramor â gwarantau credyd i brynwyr neu fenthyciadau uniongyrchol.

Mae'r **Cynllun Cyfalaf Gweithredol ar gyfer Allforio** yn helpu allforwyr yn y Deyrnas Unedig i gyrchu cyllid cyfalaf gweithredol ar gyfer contractau allforio penodol. Mynnwch ragor o wybodaeth neu trefnwch ymgynghoriad â chynghorydd cyllid allforio: **gov.uk/uk-export-finance**.

## Cyllid masnach

Cyllid masnach yw'r enw ar gyllid sy'n helpu busnesau i brynu nwyddau, oddi wrth werthwyr rhyngwladol neu ddomestig. Mae cyllid o'r fath yn aml yn cael ei ddarparu ar gyfer trafodiad penodol, ar gyfer llwyth penodol o nwyddau ac am gyfnod penodol o amser. Yma, yr ased sy'n cael ei ariannu yw'r nwyddau eu hunain (o'i gyferbynnu ag anfonebau yn achos IF) a hyd nes y bydd y cleient wedi ad-dalu, mae'r nwyddau'n perthyn i'r darparwr cyllid. Mae'r broses yn cael ei hategu â llythyrau credyd, biliau cyfnewid a gwarantau banc.

**'Ar siwrnai can milltir, nid yw naw deg ond hanner ffordd.'**

**Dihareb o Tsieina**

# Buddsoddi mewn cyngor

Mae cyngor am gyllid corfforaethol ar hyd siwrnai'r busnes yn hanfodol. Cofiwch mai cyngor yw hwn a bod cyngor annibynnol da yn amhrisiadwy. Mae gan gynghorwyr brofiad o lawer o fusnesau, tra gall profiad entrepreneuriaid fod yn gyfyngedig i'r busnes y maen nhw ynddo a dim mwy.

## Ffynonellau gwybodaeth yn y llywodraeth

Mae **greatbusiness.gov.uk** yn cysylltu â ffynonellau gwybodaeth allweddol i fusnesau sy'n gobeithio tyfu, allforio a recriwtio.

Mae **gov.uk/business** yn rhoi cyngor ar ddechrau, rhedeg, tyfu ac ariannu busnes, ac mae llinell gymorth berthynol ar gael ar:

- ffôn: 0300 456 3565
- ffôn testun: +44 (0)20 8742 8620.

Mae **gov.uk/business-finance-support-finder** yn rhoi manylion cyllid a gefnogir yn gyhoeddus, cynlluniau cynghori, grantiau a benthyciadau.

Mae Swyddfa Eiddo Deallusol y llywodraeth yn cynnig canllawiau cynhwysfawr ar ddefnyddio eiddo deallusol i godi cyllid yn ei 'IP Finance Toolkit', sydd ar gael yn **gov.uk/government/organisations/intellectual-property-office**.

## Mentoriaid busnes

Efallai mai bod yn barod ar gyfer buddsoddid yw'r nod, ond cyn bod modd paratoi cynllun busnes cadarn, gall fod ar y busnes angen gwybodaeth er mwyn iddo wneud y dewisiadau ariannol cywir.

Mae gan fentoriaid busnes brofiad ymarferol a rhwydwaith o gysylltiadau i helpu busnesau i wneud y dewisiadau cywir. Mae mentor yn gweithredu fel seinfwrdd annibynnol ar gyfer syniadau, yn darparu canllawiau a chymorth o safbwynt gwahanol, ac yn cyfeirio'r busnes at y meysydd cywir i gael cymorth priodol.

Mae **Rhwydwaith Menter Ewrop** yn helpu BBaChau i wneud y gorau o gyfleoedd busnes yn yr UE a'r tu hwnt. Mae ei nifer fawr o wasanaethau'n cael eu cynnig am ddim gan 600 o aelod-sefydliadau, gan gynnwys siambrau masnach a diwydiant, canolfannau technoleg, prifysgolion ac asiantaethau datblygu.

**een.ec.europa.eu**

**Innovate UK** yw asiantaeth arloesi'r Deyrnas Unedig, ac mae'n cynnig cyfleoedd i rwydweithio, cydweithio a chyllido, arloesi o dan arweiniad busnes ac ymchwilio a datblygu.

Mae cynllun ariannu Innovate UK, sef **Smart,** yn cynnig grantiau i gwmnïau sydd wrthi'n dechrau ac BBaChau i'w helpu i ddatblygu eu gwaith arloesi – o brofi'r farchnad drwodd i brofi'r cysyniad ac ymlaen i ddatblygu prototeipiau. Mae'n darparu grantiau o hyd at £250,000 y prosiect.

Cewch ragor o wybodaeth yn: **interact.innovateuk.org**.

Mae **Rhwydwaith Trosglwyddo Gwybodaeth** (KTN) Innovate UK yn dwyn ynghyd fusnesau, entrepreneuriaid, academyddion a buddsoddwyr i rwydweithio, cydweithredu a rhannu gwybodaeth a syniadau am gynhyrchion, prosesau a gwasanaethau arloesol newydd. Mae timau'r KTN yn ymdrin â holl sectorau arwyddocaol yr economi, o amddiffyn ac awyrofod i'r diwydiannau creadigol, o'r amgylchedd adeiledig i fiotechnoleg a roboteg.

Cewch ragor o wybodaeth yn: **ktn-uk.co.uk**.

Mae **mentorsme.co.uk** yn borth mentora ar y rhyngrwyd sy'n cysylltu busnesau'r Deyrnas Unedig sy'n chwilio am fentor â mwy na 27,000 o fentoriaid. Cymdeithas Bancwyr Prydain sy'n rheoli'r porth, gan gydweithio â'i phartneriaid mentora a mwy na 1,000 o fentoriaid banc gwirfoddol sy'n cynnig arbenigedd mewn cymorth ariannol. mae modd cysylltu â'r holl fentoriaid drwy'r wefan.

O ran busnesau yn y sector celfyddydol, diwylliannol a chreadigol sy'n chwilio am gyllid a buddsoddiadau, mae ICAEW wedi cyhoeddi **Creative Industries – Routes to Finance**, gyda 52 o sefydliadau.

**icaew.com/creativeindustries**

Mae **ELITE** yn rhaglen a llwyfan gan Gyfnewidfa Stoc Llundain sy'n hwyluso cysylltiadau rhwng busnesau twf preifat, cynghorwyr corfforaethol, buddsoddwyr ac arweinwyr byd busnes. Mae'r rhaglen 18-mis yn helpu busnesau ag adolygiadau a newidiadau trefniadaeth; rhoi'r newid cynlluniedig ar waith; a chyrchu cyfleoedd a chyllid newydd i'r busnes. I fod yn gymwys i wneud cais, rhaid i gwmnïau: gynhyrchu o leiaf £5m mewn refeniw; gallu dangos rhagolygon twf; ac mae'n rhaid bod arnyn nhw angen buddsoddiad allanol.

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i: **londonstockexchange.com/elite**.

## Anogwyr busnes

Gall anogwr helpu busnes i lunio'i strategaeth busnes a'i gynllun ariannol. Mae hyfforddiant mewn cyflwyno'n eithriadol o fuddiol wrth helpu rheolwyr i gyflwyno'r cwmni a'u cynlluniau yn y goleuni gorau posibl. Mae'n eu paratoi ar gyfer gwaith craffu trylwyr ar y cynlluniau hynny gan ddarpar fenthycwyr neu fuddsoddwyr. Yn y cyfnod hwn, byddai cynghorydd yn gyffyrddus yn cyflwyno'r cwmni i rwydwaith o fuddsoddwyr neu fenthycwyr. Mae llawer o ffyrmiau cynghori annibynnol yn cynnig gwasanaethau mentora.

## Unedau cyflymu a hybu

Erbyn hyn ceir nifer fawr o unedau cyflymu i fusnesau ledled y Deyrnas Unedig, sy'n gallu bod yn adnodd gwerthfawr i gwmnïau sydd wrthi'n dechrau. Mae llawer o wahanol fathau o unedau cyflymu, yn aml gyda chymorth yr UE, llywodraeth genedlaethol neu leol, sefydliadau academaidd a busnesau mawr.

Mae uned gyflymu'n rhoi cyngor, mentoriaid, cymorth ymarferol a thechnegol i grwpiau o fentrau newydd, yn gyfnewid yn aml am gyfran fach o ecwiti'r busnes. Bydd rhai unedau cyflymu hefyd yn buddsoddi cyfalaf ecwiti neu fenthyciadau trosadwy. Gall eraill gymryd opsiwn i brynu cyfran ecwiti yn nes ymlaen.

Mae unedau hybu yn debyg i unedau cyflymu – gan weithio yn y sectorau gwyddoniaeth a thechnoleg yn bennaf. Mannau i 'weithio ar y cyd' yw'r rhain, lle mae busnesau yn eu dyddiau cynnar yn cael canllawiau wrth ddatblygu cysyniadau'n brosiectau masnachol, p'un a yw'r rheiny wedi'u datblygu'n annibynnol neu'n deillio o sefydliadau academaidd neu fasnachol neu sefydliadau'r llywodraeth.

Mae **Gwasanaeth Cyngor Busnes ICAEW** yn cynnig help i fusnesau yn Lloegr, yr Alban a Chymru i ddod dros yr heriau y maen nhw'n eu hwynebu, gan gynnwys:

- sut i dyfu busnes;
- **sicrhau benthyciadau, cyfalaf a chyllid**;
- cadw staff a chreu swyddi newydd;
- bodloni gofynion treth a gofynion rheoleiddiol;
- cynllunio i allforio;
- **cynllunio ar gyfer twf hirdymor cynaliadwy**;
- **rheoli dyled**; a
- materion cyfreithiol.

Mae busnesau'n cael cynnig sesiwn cynghori am ddim gydag un o Gyfrifwyr Siartredig ICAEW. Edrychwch ar **businessadviceservice.com** i ddod o hyd i'r swyddfa agosaf sy'n cymryd rhan yn y cynllun.

**icaew.com**

## Canolfannau twf busnes

Mae canolfannau twf yn bartneriaethau rhwng y sectorau cyhoeddus a phreifat o dan lywodraeth y Bartneriaeth Fenter Leol (LEP). Maen nhw'n dwyn ynghyd bartneriaid o'r sectorau cyhoeddus a phreifat i hybu, cydlynu a darparu cymorth i fusnes. Maen nhw'n fecanwaith ar gyfer integreiddio cymorth cenedlaethol a lleol i fusnes, fel ei bod yn hawdd i fusnesau droi ato.

Nod canolfannau twf yw ei gwneud yn haws i fusnesau ddechrau a thyfu, drwy sicrhau bod cymorth i fusnesau:

- **yn symlach** – gan gynnig un pwynt mynediad lleol ar gyfer holl gymorth y sectorau cyhoeddus a phreifat i fusnes;
- **yn fwy di-dor** – mae cymorth lleol wedi'i gysoni â rhaglenni cenedlaethol i wella'r cydlynu ac i leihau'r dyblygu ar gymorth i fusnes; ac
- **yn haws ei gyrchu** – dwy hybu cymorth i fusnesau'n lleol, asesu anghenion y busnes, wedyn eu rhoi mewn cysylltiad â chymorth priodol; yn ogystal â chaniatáu cysylltiad â busnesau eraill i gael cymorth, cefnogaeth a mentoriaid.

Ar hyn o bryd ceir 39 o ganolfannau twf (un yn ardal pob LEP).

I gael rhestr o ganolfannau twf, ewch i: **lepnetwork.net/growth-hubs**.

## Cymorth i fusnesau yng Ngogledd Iwerddon

Mae Invest NI yn darparu gwasanaethau o safon, rhaglenni cyllid, cymorth a chyngor arbenigol i fusnesau. Yn ychwanegol, mae cymorth ynglŷn â dyled ac ecwiti'n cael ei roi drwy reolwyr cronfeydd allanol sydd wedi'u cymeradwyo gan yr FCA. Ewch i **investni.com** i gael rhagor o wybodaeth.

## Cymorth i fusnesau yn yr Alban

Business Gateway yw'r pwynt cysylltu cyntaf ar gyfer yr holl gyngor a ariennir yn gyhoeddus i fusnesau ac mae'n cael ei ddarparu drwy'r awdurdodau lleol. Mae'n cynnig ystod o gyngor a chymorth i fusnesau newydd, busnesau sydd wedi ennill eu plwyf a busnesau sy'n tyfu. Ewch i **bgateway.com**.

Ewch i **mygov.scot/business** i gael rhagor o wybodaeth.

Gall busnesau ddysgu am opsiynau cyllid hefyd yn **mygov.scot/ways-to-fund-your-business**.

## Cymorth i fusnesau yng Nghymru

Mae Busnes Cymru'n rhoi cymorth i bobl sydd wrthi'n dechrau, rhedeg a thyfu busnes yng Nghymru. **business.wales.gov.uk**

Mae Cyllid Cymru'n gwneud buddsoddiadau masnachol mewn BBaChau yng Nghymru, neu sy'n fodlon adleoli i Gymru. Rhagor o wybodaeth yn **financewales.co.uk**.

## Cymorth lleol i fusnesau ledled Lloegr

Mae'r llywodraeth yn cefnogi llawer o fentrau lleol ledled Lloegr sy'n helpu busnesau llai i dyfu a chael gafael ar gyllid. Gallwch weld yr hyn sydd ar gael yn eich ardal chi drwy gysylltu â'r Bartneriaeth Fenter Leol agosaf drwy wefan rhwydwaith yr LEPs, **lepnetwork.net**.



'Dydyn ni ddim yn derbyn doethineb; rhaid inni ei ganfod drosom ein hunain ar ôl siwrnai na all neb ei chymryd droson ni na'i rhoi i ni.'
Marcel Proust

# Chwilio am gymorth

**Cymdeithas Cyllid Seiliedig ar Asedau (ABFA)**
Mae ABFA yn cynrychioli'r diwydiant benthyca ar sail anfonebau ac asedau yn y Deyrnas Unedig a Gweriniaeth Iwerddon. Mae aelodau ABFA yn cynnwys banciau a darparwyr cyllid heblaw banciau, ac mae'r diwydiant yn arbenigo mewn helpu busnesau yn yr economi go iawn. Mae ABFA wedi sefydlu fframwaith safonau i'r diwydiant sy'n mynd ati'n annibynnol i osod a gorfodi'r safonau y gellir eu disgwyl oddi wrth aelodau ABFA.

**abfa.org.uk**

**Cymdeithas Bancwyr Prydain (BBA)**
Y BBA yw prif gymdeithas y Deyrnas Unedig ar gyfer y sector bancio, gan gynrychioli buddiannau mwy na 240 o aelod-sefydliadau o bob lliw a llun, gan gynnwys banciau manwerthol, sefydliadau cyfanwerthol, banciau her a banciau preifat, gyda phresenoldeb mewn 180 o wledydd ledled y byd.

Mae Better Business Finance yn cael ei reoli gan y BBA ar y cyd â'i bartneriaid ym myd busnes a chyllid. Mae'n darparu gwybodaeth a chymorth diduedd i fusnesau ac entrepreneuriaid sy'n gobeithio datblygu a thyfu, boed y busnes yn chwilio am gyllid, yn dechrau arni neu'n allforio.

**bba.org.uk betterbusinessfinance.co.uk**
**mentorsme.co.uk**

**Siambrau Masnach Prydain (BCC)**
Mae'r BCC wrth galon rhwydwaith o 52 o Siambrau Masnach achredEdig ledled y Deyrnas Unedig, a rhwydwaith busnes byd-eang. Yn y Deyrnas Unedig mae'n dwyn ynghyd dros 70,000 o aelod-fusnesau, ac mae mewn cysylltiad â 200,000 arall o gwmnïau nad ydyn nhw'n aelodau bob blwyddyn. Dros y môr, mae eu Rhwydwaith Busnes Byd-eang yn cynnig cymorth ymarferol ar lawr gwlad i allforwyr y Deyrnas Unedig, gan gefnogi masnach ddwyffordd.

**britishchambers.org.uk**

**BVCA**
Y BVCA yw'r corff diwydiannol a'r hyrwyddwr polisi cyhoeddus ar ran y diwydiant ecwiti preifat a chyfalaf menter yn y Deyrnas Unedig. Mae ei aelodaeth yn cynnwys mwy na 600 o ffyrmiau dylanwadol, gan gynnwys mwy na 250 o dai ecwiti preifat a chyfalaf menter, yn ogystal â buddsoddwyr sefydliadol, cynghorwyr proffesiynol a darparwyr gwasanaethau.

**bvca.co.uk**

**CBI**
Y CBI yw prif sefydliad lobïo busnesau'r Deyrnas Unedig, gan roi llais i gyflogwyr ar lefel genedlaethol a rhyngwladol.

**cbi.org.uk**

**Sefydliad Siartredig Rheolwyr Credyd (CICM)**
Y CICM yw sefydliad mwyaf Ewrop i reolwyr credyd, a'r ail fwyaf yn y byd. Dyma'r arweinydd yr ymddiriedir ynddo o ran arbenigedd ym mhob mater ynglŷn â chredyd, ac mae'n cynrychioli'r proffesiwn ar draws credyd ar gyfer masnach, defnyddwyr ac allforio, a phob gwasanaeth sy'n gysylltiedig â chredyd. Cafodd ei ffurfio dros 70 mlynedd yn ôl, a dyma'r unig sefydliad o'i fath sydd wedi'i achredu gan Ofqual. Mae'n cynnig ystod gynhwysfawr o wasanaethau ac atebion pwrpasol i weithwyr proffesiynol credyd a gwasanaethau a chyngor i'r gymuned fusnes ehangach, gan gynnwys canllawiau adnabyddus y CICM/BIS ynghylch rheoli llif arian.

**cicm.com**

**EEF**
EEF yw'r sefydliad i weithgynhyrchwyr, ac mae'n helpu miloedd o gwmnïau i esblygu, arloesi a chystadlu mewn byd sy'n prysur newid. Mae ganddo gyfuniad unigryw o wasanaethau busnes, cynrychiolaeth gerbron y llywodraeth a gwybodaeth ddiwydiannol, ac mae'n darparu sgiliau, gwybodaeth a rhwydweithiau i alluogi cwmnïau i ffynnu.

**eef.org.uk**

**Enterprise Nation**
Cafodd Enterprise Nation ei sefydlu gan Emma Jones MBE yn 2005, ac mae'n rhwydwaith i fusnesau bach sydd â chymuned o fwy na 75,000 o entrepreneuriaid, arbenigwyr a pherchnogion busnes. Y nod yw helpu pobl i droi eu syniadau da yn fusnesau gwych. Mae'r aelodau'n cael manteisio ar: rhaglen o 200 a rhagor o ddigwyddiadau ar-lein ac all-lein bob blwyddyn; cyfle i gael cyngor arbenigol; y newyddion diweddaraf i fusnesau bach; llyfrgell adnoddau; a llais ymgyrchu cryf, mawr ei barch ar y pynciau sy'n bwysig, o sgiliau digidol i allforio.

**enterprisenation.com**

**Ffederasiwn y Busnesau Bach (FSB)**
Yr FSB yw'r garfan bwyso ac ymgyrchu fwyaf yn y Deyrnas Unedig, ac mae'n hybu ac yn gwarchod buddiannau pobl hunan-gyflogedig a pherchnogion ffyrmiau bach.

**fsb.org.uk**

**Y Gymdeithas Cyllid a Phrydlesu (FLA)**
Yr FLA yw prif gymdeithas fasnach y sector asedau, defnyddwyr a moduron yn y Deyrnas Unedig, a'r sefydliad mwyaf o'i fath yn Ewrop. Mae ei aelodau'n cynnwys banciau, is-gwmnïau i fanciau a chymdeithasau adeiladu, canghennau arian cwmnïau gweithgynhyrchu manwerthol blaenllaw ac amryw o ffyrmiau annibynnol.

**fla.org.uk**

## 'Mae cwmni da ar hyd y daith yn peri bod honno'n teimlo'n fyrrach.'
## Izaak Walton

**Fforwm y Busnesau Preifat**
Sefydliad aelodaeth dielw yw'r Fforwm, ac mae'n cynnig gwasanaeth cymorth busnes cyflawn sy'n canolbwyntio ar dwf a phroffidioldeb busnesau bach.

**fpb.org**

**Innovate UK**
Innovate UK yw asiantaeth arloesi'r Deyrnas Unedig, ac mae'n cynnig cyfleoedd ar gyfer rhwydweithio, cydweithredu a chyllido, arloesi o dan arweiniad busnes ac ymchwilio a datblygu.

**interact.innovateuk.org**

**Sefydliad y Cyfarwyddwyr (IoD)**
Mae'r IoD wedi bod yn cefnogi busnesau a'r bobl sy'n eu rhedeg ers 1903. Dyma gymdeithas hynaf y Deyrnas Unedig i arweinwyr proffesiynol, ac mae'n ymroi i gefnogi ei aelodau, hybu gweithgareddau entrepreneuraidd a hybu arferion busnes cyfrifol er lles y gymuned fusnes a'r gymdeithas gyfan.

**iod.com**

**Cyfnewidfa Stoc Llundain**
Grŵp Cyfnewidfa Stoc Llundain yw'r gyfnewidfa stoc fwyaf yn Ewrop a'r bedwaredd fwyaf yn y byd. Mae'n rhedeg ystod o farchnadoedd ecwiti a bondiau gan gynnwys AIM, y Brif Farchnad a'r Llyfr Archebu ar gyfer Bondiau Manwerthol (ORB). Mae hefyd yn rhedeg ELITE, sef rhaglen cymorth ac addysg busnes i gwmnïau preifat mawr eu twf.

**londonstockexchange.com**

**Rhwydwaith Menter Cenedlaethol**
Mae'r Rhwydwaith Menter Cenedlaethol yn gorff aelodaeth unigryw sy'n cynrychioli'r rhai sy'n gweithio yn y sector cymorth menter ledled Lloegr. Mae ei aelodau'n cynnig ystod o gymorth i fusnesau newydd a busnesau sydd wedi ennill eu plwyf, gan gynnig gwybodaeth ddiduedd ac annibynnol, cyngor, hyfforddiant a gwasanaethau eraill gan gynnwys cyllid benthyciadau, mannau gweithio wedi'u rheoli a chyfleusterau hybu busnes. Mae cyfeiriadur ar-lein y Rhwydwaith Menter Cenedlaethol wedi'i ddyfeisio'n unswydd i helpu pobl sy'n chwilio am gymorth craidd wrth ddechrau arni, i'w rhoi mewn cysylltiad â sefydliadau cymorth gerllaw.

**nationalenterprisenetwork.org/findbusinesssupport**

**Cymdeithas Cyllid Cymar-i-Gymar (P2PFA)**
P2PFA yw'r gymdeithas ddiwydiannol sy'n cynrychioli darparwyr cyllid dyled amgen sy'n gweithredu drwy lwyfannau electronig.

**p2pfa.info**

**Cynghrair y Cwmnïau Dyfynedig (QCA)**
Y QCA yw'r sefydliad aelodaeth annibynnol sy'n cynrychioli buddiannau cwmnïau bach i ganolig sydd wedi'i dyfynnu ar gyfnewidfa stoc.

**theqca.com**

**Cyllid Cyfrifol**
Mae darparwyr Responsible Finance yn cynnig benthyciadau micro-gyllid i gwmnïau ac unigolion sydd wrthi'n dechrau ac i fentrau sydd wedi ennill eu plwyf. Maen nhw'n cynnig mynediad i gyllid teg, fforddiadwy i bobl a busnesau, a hynny ar ffurf benthyciad fel arfer. Bydd darparwyr Responsible Finance yn teilwra'u gwasanaethau yn lleol at anghenion rhai sydd yn aml wedi'u cau allan. Maen nhw'n cynnig gwasanaeth personol, dull cefnogol a gwir ddewis arall yn lle benthycwyr mewn banciau a darparwyr cyllid traddodiadol. Mae eu cyllid yn creu swyddi, yn hybu menter ac yn tanio twf. Nod darparwyr Responsible Finance yw adeiladu gobaith, creu cyfleoedd a newid bywydau. Maen nhw wedi'u sbarduno gan genhadaeth, sef dod â buddion cymdeithasol ac economaidd i bobl a lleoedd.

**findingfinance.org.uk**

**Cymdeithas Angylion Busnes y Deyrnas Unedig**
Cymdeithas Angylion Busnes y Deyrnas Unedig yw'r gymdeithas fasnach genedlaethol sy'n cynrychioli angylion a buddsoddwyr cyfnod cynnar y Deyrnas Unedig.

**ukbusinessangelsassociation.org.uk**

**Cymdeithas Cyllido Torfol y Deyrnas Unedig (UKCFA)**
Yr UKCFA yw'r gymdeithas fasnach fwyaf sy'n cynrychioli mwy na 40 o lwyfannau cyllido torfol sydd wedi'u seilio ar ecwiti, dyled ac enillion yn y Deyrnas Unedig. Mae'n hybu pob math o gyllido torfol fel ffynhonnell amgen i fusnes, beth bynnag fo'i gyfnod yn ei ddatblygiad, ac mae wedi cyhoeddi ei god ymarfer ei hun.

**ukcfa.org.uk**

**UK Export Finance**
Asiantaeth credydau allforio'r Deyrnas Unedig. Mae'n darparu cyllid ac yswiriant i helpu cwmnïau sy'n gwerthu dros y môr.

**gov.uk/uk-export-finance**

BRITISH BUSINESS BANK

# Banc Busnes Prydain

Mae Banc Busnes Prydain yn sefydliad ariannol sy'n perthyn i'r llywodraeth a sefydlwyd i helpu twf economaidd drwy wneud i farchnadoedd arian weithio'n well i fusnesau bach y Deyrnas Unedig.

Mae'n defnyddio cyllid a gwarantau a gefnogir gan y llywodraeth i ddod â rhagor o adnoddau'r sector preifat i mewn i fenthyciadau a buddsoddiadau i fusnesau bach.

Nid yw busnesau bach yn cael cyllid yn uniongyrchol gan Fanc Busnes Prydain – mae'r banc yn creu ei effaith drwy gynhyrchu mwy o weithgarwch yn y sector preifat. Mae Banc Busnes Prydain yn ceisio cynyddu lefel ac amrywiaeth yr opsiynau cyllid sydd ar gael i fusnesau bach y Deyrnas Unedig.

Y nod yw ysgogi cyfalaf sector preifat i greu £10bn o gyllid ar gyfer busnesau bach y Deyrnas Unedig erbyn diwedd Mawrth 2019.

## Beth mae'n ei wneud?

Mae Banc Busnes Prydain yn darparu cyllid a gwarantau drwy fenthycwyr a buddsoddwyr masnachol, sy'n defnyddio'r adnoddau ariannol hyn – ynghyd â'u harian eu hunain – i fenthyg i fusnesau bach yn y Deyrnas Unedig neu i fuddsoddi ynddyn nhw.

Mae'n gweithredu ar draws y marchnadoedd ariannol, o gefnogi cyllid ecwiti yn y cyfnod cynnar, drwy ddarparu cyfalaf twf, i uwch-ddyledion i BBaChau sydd wedi ennill eu plwyf, ac mae'n rhannu mewn unrhyw enillion sy'n dod yn sgil y buddsoddiad. Mae'n ailgylchu'r enillion hyn wedyn mewn rhagor o fenthyciadau a buddsoddiadau.

Nod ei gangen fasnachol, British Business Bank Investments Ltd (**bbbinv.co.uk**), yw sicrhau enillion masnachol drwy fuddsoddi dyled ac ecwiti mewn darparwyr cyllid ar gyfer busnesau bach a chwmnïau bach sy'n ganolig eu cyfalaf a hyn ar sail gwbl fasnachol, heb gael unrhyw fantais gan y llywodraeth.

Mae Banc Busnes Prydain yn cefnogi busnesau bach y Deyrnas Unedig mewn tri maes bras.

- **Dechrau** – mentoriaid a chyllid er mwyn 'bod yn fos i chi'ch hun'.
- **Chwyddo** – cyllid i fusnesau sy'n tyfu'n gyflym neu'r rhai sydd â'r potensial i wneud.
- **Aros ar y blaen** – rhagor o opsiynau cyllid a mwy o ddewis o ran darparwyr ar gyfer cyfalaf ehangu a chyfalaf gweithredol.

Cewch ragor o wybodaeth yn **british-business-bank.co.uk**.

## SUT RYDYM YN GWEITHIO

**ATEBION**
Wedi'u bwriadu i wneud i farchnadoedd arian i fusnesau bach weithio'n well

BRITISH BUSINESS BANK

**ARIAN**
£3bn+ o ymrwymiadau cyllid cyhoeddus

Cydweithio â darparwyr y marchnadoedd arian

ARIAN Y SECTOR PREIFAT

- DARPARWYR CYLLID DECHREUOL
- ANGYLION BUSNES
- DARPARWYR CYLLID ASEDAU
- DARPARWYR CREDYD MASNACH
- BANCIAU'R STRYD FAWR
- BANCIAU HER
- CYLLID CYFALAF MENTER
- BENTHYCWYR CYMAR-I-GYMAR
- DISGOWNTIO ANFONEBAU
- DARPARWYR CYLLID Y GADWYN GYFLENWI
- CYLLID DYLED

ARIAN Y SECTOR PREIFAT

### DECHRAU
Mentoriaid a chyllid er mwyn 'bod yn fos i chi'ch hun'

**Benthyciadau Dechrau Busnes**

Darparu benthyciadau a chymorth mentoriaid i helpu entrepreneuriaid i ddechrau busnes.

### CHWYDDO
Cyllid i fusnesau â'r potensial ar gyfer twf mawr

**Cyd-gronfa Angylion**

Buddsoddiad ecwiti cyfatebol mewn busnesau bach gan angylion busnes.

**Atebion Cyfalaf Menter**

Cefnogi marchnad cyfalaf menter fywiog ac amrywiol ar gyfer busnesau cyfnod cynnar a busnesau twf mawr.

**Rhaglen Cymorth i Dyfu**

Yn caniatáu i ffyrmiau sy'n tyfu'n gyflym wireddu eu potensial. Mae'n cynnwys cyllid dyled sydd ag elfennau ecwiti neu, yn fwy syml, is-ddyled.

### AROS AR Y BLAEN
Rhagor o opsiynau cyllid a dewis o ran darparwyr

**Y Rhaglen Fuddsoddi**

Yn cefnogi ystod ehangach o gyllid i fusnesau bach.

**Enable**

Cyllid a chynhyrchion cyfalaf i helpu i gynyddu llif y cronfeydd.

**Gwarant Cyllid Menter**

Yn annog sefydliadau ariannol i fenthyca i fusnesau bach hyfyw sydd heb warant gyfochrog neu hanes.

Cronfa Fuddsoddi'r Northern Powerhouse a Chronfa Fuddsoddi'r Midlands Engine

Llwyfannau cyllid ac asiantaethau cyfeirio credyd

**YN CREU GWELL BUDDSODDIADAU MEWN BUSNES, TWF A SWYDDI**

# Ynghylch yr awduron

**Marc Mullen**
Mae Marc yn Gyfrifydd Siartredig ICAEW a hyfforddwyd gan PwC. Mae'n newyddiadurwr llawrydd ac yn olygydd *Corporate Financier*, cylchgrawn Cyfadran Cyllid Corfforaethol yr ICAEW.
T +44 (0)7930 847 544
E marc.c.mullen@googlemail.com

**David Petrie, Pennaeth Cyllid Corfforaethol, ICAEW**
David sy'n gyfrifol am arweiniad a datblygiad strategol holl weithgareddau ICAEW mewn cyllid corfforaethol. Mae wedi cynghori ar nifer o drafodion codi arian – o MBOs bach i drefniadau allanol mawr a chymhleth, yn y Deyrnas Unedig ac yn rhyngwladol. Mae dal yn chwarae rhan weithgar gyda nifer o gwmnïau bach a chanolig.
T +44 (0)20 7920 8796
E david.petrie@icaew.com

# Diolch

## Hoffem ddiolch i'r unigolion a ganlyn am eu cyfraniadau i argraffiad newydd y *Canllaw cyllid busnes*.

Tom Allchorne
Cyfarwyddwr Cyfathrebu,
BVCA

Toby Bateman
Cynghorydd Polisi,
Gwasanaethau Ariannol, CBI

Shaun Beaney
Rheolwr, Cyfadran Cyllid
Corfforaethol, ICAEW

Puja Bhattacharjee
Cynghorydd Polisi Cyllid
Busnes, BBA

Ian Cass
Rheolwr-Gyfarwyddwr, FPB

Mike Cherry
Cadeirydd Cenedlaethol, FSB

Clare Cochrane
Pennaeth Brand, ICAEW

Mike Conroy
Cyfarwyddwr Gweithredol,
Bancio Corfforaethol
a Masnachol, BBA

Graham Dale
Pennaeth Materion Cyhoeddus,
ICAEW

Matthew Davies
Cyfarwyddwr Polisi a Chyfathrebu,
ABFA

Bruce Davis
Cyfarwyddwr, Cymdeithas
Cyllido Torfol y Deyrnas Unedig

Christine Farnish CBE
Cadeirydd, P2PFA

Sean Feast
Golygydd-Gyfarwyddwr, Credit
Management

Graeme Fisher
Rheolwr-Gyfarwyddwr
Polisi, Cyfathrebu a Marchnata,
Banc Busnes Prydain

Simon Goldie
Pennaeth Cyllid Asedau,
FLA

Julia Groves
Cadeirydd, Cymdeithas Cyllido
Torfol y Deyrnas Unedig

Theodora Hadjimichael
Rheolwr Polisi ac Ymchwil,
Cyllid Cyfrifol

Sarah Hallett
Dylunydd Cynnwys,
ICAEW

Tim Hames
Prif Weithredwr, BVCA

Robert Hodgkinson
Cyfarwyddwr Gweithredol,
Technegol, ICAEW

Michael Izza
Prif Weithredwr, ICAEW

Katerina Joannou
Rheolwr, Polisi Marchnadoedd
Cyfalaf, ICAEW

Emma Jones
Sylfaenydd, Enterprise Nation

Philip King
Prif Weithredwr, CICM

Andrea Kinnear
Pennaeth Cyfathrebu,
FL

Clive Lewis
Pennaeth Menter,
ICAEW

Laurence Lily
Rheolwr Cyfathrebu
UK Export Finance

Alexis Liming
Prif Swyddog Gweithredol,
Enterprise
Nation

Jeff Longhurst
Prif Swyddog
Gweithredol, ABFA

Paul Massey
Cyfarwyddwr, Cymdeithas
Cyllido Torfol y Deyrnas Unedig

Adam Marshall
Cyfarwyddwr Cyffredinol
Dros Dro,
BCC

Michael Martins
Dadansoddwr Economaidd, IOD

Keith Morgan
Prif Weithredwr,
Banc Busnes Prydain

Sharna Neil
Swyddog Brand, ICAEW

George Nikolaidis
Uwch-Economegydd, EEF

Robert Pettigrew
Cyfarwyddwr Polisi, P2PFA

Samantha Ridler
Rheolwr, P2PFA

Sarah-Jayne Russell
Rheolwr Cynnwys,
ICAEW

Scott Shearer
Cyfathrebu a Marchnata,
Banc Busnes Prydain

Rebecca Simon
Cyfarwyddwr Cyfathrebu
a Marchnata,
Banc Busnes Prydain

Marcus Stuttard
Pennaeth y Prif Farchnadoedd,
Cyfnewidfa Stoc Llundain

Jenny Tooth OBE
Prif Weithredwr, UKBAA

Nick Toyas
Toyas O'Mara

Tim Ward
Prif Weithredwr, QCA

Dawn Whiteley
Prif Weithredwr,
Y Rhwydwaith Menter
Cenedlaethol


Mark Young
Rheolwr Brand a Marchnata,
Innovate UK

Veronica Zabrini
Swyddog Gweithrediadau,
Cyfadrannau,
ICAEW

Rydym yn ddiolchgar am gefnogaeth y gwahanol bwyllgorau yn y sefydliadau sydd wedi ategu argraffiad newydd y *Canllaw cyllid busnes* .

# Parhewch â'r siwrnai ar-lein

P'un a ydych yn chwilio am gyllid cychwynnol, wrthi'n tyfu busnes neu'n ceisio ehangu i mewn i farchnadoedd newydd, bydd ein teclyn rhyngweithiol, sydd wedi'i ddatblygu gyda chymorth ein partneriaid arbenigol, yn eich arwain drwy bob cam o'r siwrnai gyllido.




thebusinessfinanceguide.co.uk

## Banc Busnes Prydain

Nod Banc Busnes Prydain yw sicrhau bod marchnadoedd cyllid i fusnesau bach a chanolig yn gweithio'n effeithiol, gan ganiatáu i'r busnesau hyn ffynnu, tyfu ac adeiladu gweithgarwch economaidd y Deyrnas Unedig.

Mae Banc Busnes Prydain yn dod ag arbenigedd ac arian y llywodraeth i farchnadoedd cyllid busnesau bach. Drwy ddefnyddio ymchwil i ddeall y marchnadoedd hyn ac anghenion ariannol busnesau bach mae'r banc yn gallu cynllunio'i raglenni. Mae'n cynyddu ei effaith i'r eithaf drwy fuddsoddi ochr yn ochr â'r sector preifat a gweithio drwy ystod o fwy nag 80 o ddarparwyr hen a newydd yn y marchnadoedd cyllid, megis banciau, cwmnïau prydlesu, cronfeydd cyfalaf menter a llwyfannau ar y we.

Yn ychwanegol at gyllid, mae Banc Busnes Prydain yn defnyddio gwarantau i rannu risg gyda'r sector preifat, gan greu cymhellion cryfach i fenthycwyr gynnig credyd i gwmnïau bach neu gwmnïau sy'n tyfu. Mae rhaglenni'r banc yn dod â manteision i fusnesau bach sydd newydd ddechrau, sy'n tyfu'n fawr, neu sy'n hyfyw ond heb ddigon o gyllid.

## Cyfadran Cyllid Corfforaethol yr ICAEW

Mae rhwydwaith proffesiynol y gyfadran yn cynnwys mwy nag 80 o aelod-sefydliadau a 7,000 o aelodau o grwpiau gwasanaethau proffesiynol o bwys, ffyrmiau cynghori arbenigol, cwmnïau, banciau, ecwiti preifat, cyfalaf menter, ffyrmiau cyfraith, broceriaid, ymgynghorwyr, gwneuthurwyr polisi ac arbenigwyr academaidd. Mae dros 40% o'r aelodaeth yn dod o'r tu allan i'r ICAEW.

Y gyfadran yw canolfan ragoriaeth broffesiynol ICAEW mewn cyllid corfforaethol.

Mae'n cyfrannu at waith datblygu polisi ac ymgynghori cyhoeddus ac mae'n darparu ystod eang o wasanaethau, digwyddiadau a chyfryngau i'w haelodau, gan gynnwys ei chylchgrawn *Corporate Financier*.

Mae ICAEW yn sefydliad aelodaeth proffesiynol sy'n hybu, yn datblygu ac yn cefnogi dros 145,000 o gyfrifwyr siartredig ledled y byd. Rydym yn darparu cymwysterau a datblygiad proffesiynol, yn rhannu'n gwybodaeth, ein dirnadaeth a'n harbenigedd technegol, gan ddiogelu ansawdd ac uniondeb y proffesiynau cyfrifyddiaeth a chyllid.

A hwythau ar flaen y gad mewn cyfrifyddiaeth, cyllid a busnes, mae gan ein haelodau'r wybodaeth, y sgiliau a'r ymroddiad i gynnal y safonau a'r uniondeb proffesiynol uchaf un. Gyda'n gilydd rydym yn cyfrannu at lwyddiant unigolion, sefydliadau, cymunedau ac economïau ledled y byd.

**O'n hachos ni, gall pobl wneud busnes yn hyderus.**

Mae ICAEW yn un o aelodau cychwynnol Chartered Accountants Worldwide a'r Cynghrair Cyfrifyddu Byd-eang.
www.charteredaccountantsworldwide.com
www.globalaccountingalliance.com

Chartered Accountants Worldwide

GAA Global Accounting Alliance

ICAEW
Chartered Accountants' Hall Moorgate Place Llundain EC2R 6EA UK
**T** +44 (0)20 7920 8685
**E cff@icaew.com**
icaew.com/cff
linkedin.com – ICAEW Corporate Finance Faculty
twitter@ICAEW_CORP_FIN

ICAEW 2016 TECPLM15108 07/16